# Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Fideogynhadledd drwy Zoom** | **P Gareth Williams** |
| Dyddiad: Dydd Llun, 11 Gorffennaf 2022 | Clerc y Pwyllgor |
| | 0300 200 6565 |
| Amser: 13.00 | SeneddDCC@senedd.cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 2 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog

(13.00 – 14.30) (Tudalennau 1 – 4)

Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Dylan Hughes, y Prif Gwnsler Deddfwriaethol

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Memorandwm Esboniadol: Atodiad A – Nodiadau Esboniadol

Memorandwm Esboniadol: Atodiad B1 – Tabl Gwreiddiau

Memorandwm Esboniadol: Atodiad B2 – Tabl Trawsleoli

Memorandwm Esboniadol: Atodiad C – Eglurhad o newidiadau a wnaed i ddarpariaethau presennol (Nodiadau Drafftwyr)

Memorandwm Esboniadol: Atodiad D – Gohebiaeth gan Gomisiwn y Gyfraith

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 1 – Briff ymchwil

LJC(6)-21-22 – Papur 2 – Nodyn briffio

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.30 - 14.50)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**3.1 SL(6)230 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 5 - 9)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 3 – Adroddiad drafft

LJC(6)-21-22 - Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Llywydd, 29 Mehefin 2022

**3.2 SL(6)231 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 10 - 13)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 5 – Adroddiad drafft

LJC(6)-21-22 - Papur 6 – Ymateb Llywodraeth Cymru

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**3.3 SL(6)222 - Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022**

(Tudalennau 14 - 15)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 7 – Adroddiad drafft

**3.4 SL(6)225 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithas Dai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022**

(Tudalennau 16 – 20)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 8 – Adroddiad drafft

LJC(6)-21-22 – Papur 9 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 21 Mehefin 2022

**3.5 SL(6)226 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022**

(Tudalennau 21 – 26)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 10 – Adroddiad drafft

LJC(6)-21-22 – Papur 11 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 21 Mehefin 2022

**3.6 SL(6)227 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 27 – 32)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 12 – Adroddiad drafft

LJC(6)-21-22 – Papur 13 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 21 Mehefin 2022

**3.7 SL(6)229 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022**

(Tudalennau 33 – 45)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 14 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-21-22 - Papur 15 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 21 Mehefin 2022

**3.8 SL(6)232 - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022**

(Tudalennau 46 - 48)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 16 - Adroddiad drafft

LJC(6)-21-22 - Papur 17 - Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 29 Mehefin 2022

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

(14.50 - 14.55)

**4.1 SL(6)218 - Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022**

(Tudalennau 49 - 52)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 18 - Adroddiad

LJC(6)-21-22 - Papur 19 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

(14.55 - 15.00)

**5.1 WS-30C(6)010 - Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Diwygio a Dirymu) (Y Deyrnas Unedig a Gibraltar) (Ymadael â'r UE) 2022**

(Tudalennau 53 - 55)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 20 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad , 5 Gorffennaf 2022

LJC(6)-21-22 – Papur 21 – Sylwadau

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(15.00 - 15.05)

### 6.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Cyfarfod y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach

(Tudalen 56)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 22 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 4 Gorffennaf 2022

### 6.2 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022

(Tudalennau 57 - 60)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 23 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 5 Gorffennaf 2022

LJC(6)-21-22 – Papur 24 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 5 Gorffennaf 2022

### 6.3 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Guernsey

(Tudalen 61)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 25 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 6 Gorffennaf 2022

## 7 Papurau i’w nodi

(15.05 - 15.10)

**7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig**

(Tudalennau 62 - 65)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 26 - Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 5 Gorffennaf 2022

LJC(6)-21-22 - Papur 27 - Llythyr at y Prif Weinidog, 22 Mehefin 2022

**7.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

(Tudalennau 66 - 68)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 28 - Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid, 6 Gorffennaf 2022

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.10)

## 9 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(15.10 - 15.20)

## 10 Trafod cytundebau rhyngwladol

(15.20 - 15.30) (Tudalennau 69 - 72)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 29 - Nodyn briffio

## 11 Adroddiad Monitro

(15.30 - 15.40) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 - Papur 30 - Adroddiad Monitro drafft

## 12 Adroddiad Blynyddol

(15.40 - 16.05) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 31 – Adroddiad drafft

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd).

(16.05 - 16.15) (Tudalennau 73 - 83)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd).

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 32 – Nodyn cyngor cyfreithiol

LJC(6)-21-22 – Papur 33 – Nodyn briffio

## 14 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael

(I ddilyn)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Caffael

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 34 – Nodyn cyngor cyfreithiol

LJC(6)-21-22 – Papur 35 – Nodyn briffio

## 15 Blaenraglen Waith

(16.25 - 16.35) (Tudalennau 84 - 88)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-21-22 – Papur 36 – Blaenraglen waith

LJC(6)-21-22 – Papur 37 – Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol, 5 Gorffennaf 2022

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# SL(6)230 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y prif Reoliadau"), sy'n darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am wasanaethau perthnasol a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i ymwelwyr tramor.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r prif Reoliadau i fewnosod "Monkeypox" yn Atodlen 1 (clefydau na chodir ffi am eu trin). Mae rheoliad 2(2)(b) yn darparu o ran ffioedd yr aed iddynt mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarparwyd i ymwelydd tramor ar gyfer trin brech y mwncïod ar neu ar ôl 23 Mai 2022 ond cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym -

- os nad ydynt wedi eu codi eto, na chaniateir eu codi,
- os ydynt wedi eu codi, na chaniateir eu hadennill, neu
- os ydynt wedi eu talu, fod rhaid eu had-dalu.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(iv) - ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn.**

Nodwn fod Rheoliad 2(2)(b) yn nodi: "*Services provided to an overseas visitor for the treatment of monkeypox on or after 23 May 2022 but before this paragraph came into force are to be treated for the purposes of these Regulations as if, at the time that the services were provided, they were relevant services in respect of which no charge may be made or recovered.*"

Ymddengys bod effaith ôl-weithredol i'r ddarpariaeth hon, lle nad yw'r deddfiad sy'n awdurdodi (Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn. A all Llywodraeth Cymru roi esboniad?

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y confensiwn 21 diwrnod yn cael ei dorri (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r confensiwn a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 29 Mehefin 2022.

Yn benodol, nodwn y rhan ganlynol yn y llythyr:

> "*Gwnaed Rheoliadau 2022 a'u gosod cyn gynted ag y bo'n ymarferol er mwyn galluogi brech y mwncïod i gael ei gynnwys yn y rhestr clefydau yn Atodlen 1 sy'n esempt rhag ffi gan y GIG (pan fo angen triniaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn ehangach).*
>
> *Os cedwir at y confensiwn 21 diwrnod, mae perygl (fel y mae DHSC wedi'i nodi mewn perthynas â'i deddfwriaeth yn Lloegr) y bydd ymwelwyr tramor yn peidio â cheisio triniaeth oherwydd pryderon am ffioedd, a thrwy hynny'n dod yn risg iechyd y cyhoedd i'r gymuned ehangach.*
>
> *Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i Reoliadau 2022 ddod i rym cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a thrwy hynny leihau'r risg i iechyd y cyhoedd yn ehangach.*"

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"It is considered that the proposed amendments do not require consultation as they are an urgent amendment to the Principal Regulations to protect the wider public health by including monkeypox as a disease, services for the treatment of which is exempt from NHS charges for overseas visitors and thereby ensuring that the risk to public health from infected visitors is minimised."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"A regulatory impact assessment has not been prepared in relation to these Regulations due to the need to put them in place urgently to respond to the current outbreak of monkeypox in the UK."*

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Rheol Sefydlog 15.4 yn ei gwneud yn ofynnol i bob dogfen a osodir fod yn ddwyieithog "*cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol*." Nodwn nad yw'r Memorandwm Esboniadol ar gael yn Gymraeg. A all Llywodraeth Cymru roi esboniad?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phwyntiau un a phump.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**6 Gorffennaf 2022**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-EM-2157-22

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

29 Mehefin 2022

Annwyl Llywydd

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022")

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2022, ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y Prif Reoliadau"). Mae'r Prif Reoliadau yn gosod y fframwaith ar gyfer codi ffioedd ar bersonau nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y DU am driniaeth ysbyty a ddarperir yng Nghymru.

Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio Atodlen 1 o'r Prif Reoliadau i gynnwys brech y mwncïod fel clefyd, y mae gwasanaethau i'w drin wedi'u hesemptio rhag ffioedd y GIG ar gyfer ymwelwyr tramor.

Mae Rheoliadau 2022 hefyd yn darparu pan ddarperir gwasanaethau i ymwelydd tramor ar gyfer trin brech y mwncïod, ar neu ar ôl 23 Mai 2022 ond cyn 1 Gorffennaf 2022 (sef y dyddiad y daw'r diwygiadau i rym), ni chaniateir i Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG godi ffioedd am y gwasanaethau hynny ac os ydynt eisoes wedi codi ffioedd yna ni chaniateir eu hadennill ac os ydynt eisoes wedi'u hadennill yna rhaid eu had-dalu. Y rheswm am hyn yw bod achosion o'r clefyd yng Nghymru eisoes, o ganlyniad i'r brigiad diweddaraf. Drwy ganslo taliadau a allai fod yn gymwys fel arall cyn y dyddiad dod i rym, y bwriad yw sicrhau na fydd ymwelwyr tramor yn peidio â cheisio triniaeth oherwydd pryderon ynghylch codi ffi. Bydd hefyd yn sicrhau bod y rhai sydd wedi cael triniaeth am frech y mwncïod cyn i'r Rheoliadau ddod i rym yn cael eu trin yn gyfartal â'r rhai sy'n cael triniaeth ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er gwybodaeth, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) wedi cynnwys darpariaeth debyg yn ei rheoliadau codi ffioedd, heblaw bod DHSC wedi dewis estyn yr eithriad rhag ffioedd am driniaeth a ddaparwyd i ymwelwyr tramor ar neu ar ôl 1 Mai 2022, yn hytrach na 23 Mai 2022. Mae hyn oherwydd bod yr achos cyntaf o frech y mwncïod wedi'i nodi yn Lloegr (ar 6 Mai 2022) yn gynharach nag yng Nghymru (ar 25 Mai 2022, ac wedi'i gadarnhau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 26 Mai 2022). Daeth y ddeddfwriaeth ddiwygio y rhoddwyd effaith iddi gan DHSC yn Lloegr i rym lai na 21 diwrnod ar ôl ei gosod, er mwyn lleihau unrhyw risg i iechyd y cyhoedd pe bai ymwelydd tramor yn peidio â cheisio triniaeth oherwydd y posibilrwydd y byddai ffi yn cael ei chodi arno.

Gwnaed Rheoliadau 2022 a'u gosod cyn gynted ag y bo'n ymarferol er mwyn galluogi brech y mwncïod i gael ei gynnwys yn y rhestr clefydau yn Atodlen 1 sy'n esempt rhag ffi gan y GIG (pan fo angen triniaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn ehangach).

Os cedwir at y confensiwn 21 diwrnod, mae perygl (fel y mae DHSC wedi'i nodi mewn perthynas a'i deddfwriaeth yn Lloegr) y bydd ymwelwyr tramor yn peidio â cheisio triniaeth oherwydd pryderon am ffioedd, a thrwy hynny yn dod yn risg iechyd y cyhoedd i'r gymuned ehangach.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i Reoliadau 2022 ddod i rym cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a thrwy hynny leihau'r risg i iechyd y cyhoedd yn ehangach.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# SL(6)231 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Cynllun noddi Cartrefi i Wcráin yn darparu llwybr i'r rhai yr effeithir arnynt gan y gwrthdaro yn Wcráin ddod i'r DU os oes ganddynt noddwr a enwir a all ddarparu llety iddynt.

Diben *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Cymru) 2022* (y "Rheoliadau") yw sicrhau na fydd aelwydydd sy'n lletya unigolion o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin ("unigolyn perthnasol o Wcráin") ar eu colled o ran disgowntiau neu esemptiadau y dreth gyngor o ganlyniad i gartrefu pobl ychwanegol.

At ddibenion cyfrifo'r dreth gyngor, caiff rhai dosbarthiadau o bobl eu 'diystyru'. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn cael eu cyfrif wrth gyfrifo faint o bobl sy'n byw mewn eiddo. Mae hyn yn berthnasol wrth benderfynu a yw cartrefi yn gymwys i gael disgownt ar eu biliau treth gyngor. Er mwyn sicrhau nad yw unigolyn perthnasol o Wcráin yn effeithio ar statws treth gyngor ei noddwyr, mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau yn diwygio *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992* i ddiystyru unigolion o'r fath.

At hynny, mae rhai anheddau (megis cartrefi a feddiennir gan fyfyrwyr yn unig) yn esempt rhag talu'r dreth gyngor. Mae anheddau o'r fath wedi'u rhestru yng *Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992* (y "Gorchymyn Anheddau Esempt"). Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Gorchymyn Anheddau Esempt i sicrhau na chollir esemptiad presennol pan fo aelwyd yn lletya person perthnasol o Wcráin.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol, wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn diwygio'r Gorchymyn Anheddau Esempt i:

> "[...] *ddarparu bod esemptiadau sy'n ymwneud ag anheddau a feddiennir pan fo unigolion a dderbynnir i'r Deyrnas Unedig o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin yn preswylio mewn anheddau o'r fath yn Lloegr hefyd yn gymwys i anheddau yng Nghymru.*"

Nid yw'n glir pam mae Rheoliad 3(4) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod y geiriau "*yn Lloegr*" yn Erthygl 2(3A) o'r Gorchymyn Anheddau Esempt mewn perthynas â Chymru.

Mae erthygl 2(3A) yn darparu bod meddiannaeth gan unigolyn perthnasol o Wcráin i'w ddiystyru wrth ystyried a yw annedd wedi'i 'meddiannu' mewn perthynas ag un ar ddeg dosbarth o anheddau (B, D, E, F, H, I, J, K, L, Q a T) yn erthygl 3 o'r Gorchymyn Anheddau Esempt.

Nid yw'r rhesymeg dros gyfyngu'n benodol ar erthygl 2(3A) i Loegr wedi'i hegluro ac mae'n ymddangos yn groes i'r nod polisi ymddangosiadol yn y Nodyn a'r Memorandwm Esboniadol. Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau:

> *"[...] nad yw aelwydydd lletyol sy'n cynnig llety i bobl o Wcráin o dan y **'Cynllun Cartrefi i Wcráin'** yn mynd i unrhyw gostau treth gyngor ychwanegol". (pwyslais wedi'i ychwanegu)*

Nid yw'r rhesymeg dros gyfyngu'r Rheoliadau hyn i unigolion a noddir o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin wedi'i hegluro yn y Memorandwm Esboniadol.

O dan y 'Cynllun Wcráin Atodol' i'r Rheolau Mewnfudo, gall pobl y mae'r gwrthdaro yn Wcráin yn effeithio arnynt fod yn gymwys i gael caniatâd i ddod i'r DU o dan y cynlluniau a ganlyn:

- **Cynllun Cartrefi i Wcráin** - mae'n caniatáu i wladolion Wcráin ac aelodau o'u teulu ddod i'r DU os oes ganddynt noddwr a enwir a all ddarparu llety iddynt am o leiaf chwe mis; a'r

- **Cynllun Teuluoedd o Wcráin** – mae'n caniatáu i wladolion Wcráin ymuno ag aelodau teulu o'r DU, neu ymestyn eu harhosiad yn y DU.

Ar lefel y DU ar 28 Mehefin 2022, roedd cyfanswm o 98,400 o fisâu wedi'u cyhoeddi o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin, a 44,100 o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin.

Fel y'i drafftiwyd, mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn i aelwydydd sy'n lletya pobl o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin, ond nid i'r rhai sy'n cael eu lletya o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gallai aelwydydd sy'n lletya aelodau ychwanegol o'r teulu o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin golli esemptiadau a disgowntiau presennol ar gyfer y dreth gyngor.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam nad yw'r Rheoliadau hyn yn ymestyn i'r rhai sydd â chaniatâd i ddod i'r DU o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff olaf y Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn datgan, ar ôl ystyried Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol:

> *"[…] ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol […]"*

Fodd bynnag, cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fe'i nodir ym mharagraff 6 (ac is-baragraffau dilynol) y Memorandwm Esboniadol.

Er nad yw'r Nodyn Esboniadol yn rhan o'r Rheoliadau, gallai'r anghysondeb hwn fod yn gamarweiniol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol, a'r ddau bwynt rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**04 Gorffennaf 2022**

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Cymru) 2022**

**Pwynt craffu technegol 1:**

**Ymateb**

Mae erthygl 2(3A) o Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992, a fewnosodwyd gan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Diwygio) (Lloegr) 2022, yn ymwneud ag eiddo nad yw wedi ei feddiannu. Fel y nodir yn y nodiadau esboniadol, bwriad y polisi yw darparu bod esemptiadau sy'n ymwneud ag eiddo a feddiennir yn rhychwantu Cymru. Roedd yn angenrheidiol mewnosod y geiriau "in England" yn erthygl 2(3A) er mwyn sicrhau ei bod yn glir nad yw'r erthygl hon sy'n ymwneud ag eiddo nad yw wedi ei feddiannu yn gymwys i Gymru.

**Pwynt craffu ar rinweddau 1**:

**Ymateb**

Dyma'r dull sydd wedi ei ddefnyddio yn Lloegr ac yn yr Alban hefyd. Mae'r meini prawf ar gyfer mynediad o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin yn wahanol i'r rheini ar gyfer y Cynllun Cartrefi i Wcráin. O dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin, mae disgwyliad y bydd pobl o Wcráin yn ymuno ag aelodau o'r teulu yn y DU ac y bydd eu perthnasau'n gallu darparu llety.

Bwriad y Rheoliadau hyn yw annog pobl i fanteisio ar y cynllun Cartrefi i Wcráin drwy sicrhau nad yw pobl sy'n darparu llety i berson neu deulu o Wcráin yn cael eu cymell i beidio â gwneud hynny oherwydd y gallent golli unrhyw ddisgownt neu esemptiad y mae ganddynt hawl iddo ar hyn o bryd.

**Pwynt craffu ar rinweddau 2:**

**Ymateb**

Amryfusedd oedd hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellir cywiro hyn drwy gyfrwng slip cywiro.

# SL(6)222 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 ("**Rheoliadau 2018**") yn pennu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd planhigion ac ardystio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2018:

- mewn perthynas â'r ffioedd sy'n daladwy gan fewnforiwr llwyth o drydedd wlad mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol a gwiriad adnabod o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill, gan gynnwys darparu ar gyfer ffi safonol mewn perthynas â gwiriadau penodol;

- i ymestyn eithriad presennol rhag talu ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad ag ardystio a gwasanaethau cyn-allforio sy'n ymwneud â llwythi penodol i Ogledd Iwerddon rhwng 31 Rhagfyr 2022 a 31 Rhagfyr 2023; ac

- i adfer ffioedd rhagnodi darpariaeth sy'n daladwy ar gyfer samplau a gymerir ar fewnforion yr amheuir eu bod wedi'u heintio â phla planhigion rheoledig, a hepgorwyd drwy gamgymeriad gan Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3 (i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan Reoliadau 2018 mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd planhigion. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn (yn adran 6) yn nodi'r canlynol:

> "*Amcangyfrifir y bydd effaith y newidiadau arfaethedig ledled Cymru ar fusnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol yn arbed tua £60 mil y flwyddyn yng Nghymru oherwydd lefelau is o wiriadau ac effaith ddilynol ar ffioedd. Fodd bynnag, gall y ffordd y caiff llwythi cymysg eu rheoli arwain at or adfer swm bach iawn o £1.5 mil*".

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol (yn adran 4) yn nodi:

> "*Mae'r ffioedd ar gyfer archwiliadau iechyd planhigion a bennir gan Reoliadau 2018 yn cael eu diwygio yn yr offeryn hwn i adlewyrchu amlder y gwiriadau a sefydlwyd o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022…*"

Mewn Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 4 Gorffennaf 2022 gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau 2022, a bod y Rheoliadau hynny:

> "*…yn darparu ar gyfer trefn ar gyfer Prydain Fawr sy'n seiliedig ar risg i bennu pa mor aml y cynhelir gwiriadau. Bydd yn caniatáu newid pa mor aml y cynhelir gwiriadau o iechyd planhigion ar lwybrau mewnforio penodol, gan ddibynnu ar lefel y risg i iechyd planhigion ym Mhrydain Fawr…. Bydd [Rheoliadau 2022] …yn gymwys yn yr un modd ag i fewnforion o wledydd y tu allan i'r UE ag i nwyddau blaenoriaeth uchel o aelod-wladwriaethau'r UE, y Swistir a Liechtenstein.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**6 Gorffennaf 2022**

# SL(6)225 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithas Dai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfyngu ar gymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") mewn perthynas â math penodol o denantiaeth ac yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn adlewyrchu hynny.

Mae Deddf 2016 yn cyflwyno darpariaethau sylfaenol sydd, os cânt eu cynnwys mewn contract meddiannaeth, yn dod yn un o delerau sylfaenol y contract hwnnw.

Mae adran 22(1) o Ddeddf 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu bod unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw ddeddfiad yn ddarpariaeth sylfaenol sy'n gymwys i gontract meddiannaeth, neu nad yw'n ddarpariaeth o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu nad yw'r adrannau perthnasol o Ddeddf 2016 sy'n ymdrin ag amrywio rhenti yn ddarpariaethau sylfaenol sy'n gymwys i gontractau meddiannaeth sy'n denantiaethau cymdeithasau tai (o fewn yr ystyr a roddir gan Ran 6 o Ddeddf Rhenti 1977 ("Deddf 1977")).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2016 a Deddf 1977 ar gyfer y mathau hyn o denantiaethau, fel bod y trefniadau presennol sy'n gymwys i amrywio rhenti ar gyfer y tenantiaethau hyn yn parhau'n gymwys pan fo tenantiaeth cymdeithas dai yn gontract meddiannaeth safonol diogel neu gyfnodol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai effaith y Rheoliadau hyn yw bod yr hawliau ychwanegol sydd eisoes yn bod mewn perthynas â'r amddiffyniad rhent sydd gan denantiaid o'r fath yn cael eu cadw.

## Gweithdrefnau

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae’r Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau yn nodi:

> *“Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol oherwydd mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud.”*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**27 Mehefin 2022**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rhoi Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar waith: gosod yr offerynnau cadarnhaol yn nhrydedd gyfres yr is-ddeddfwriaeth** |
| **DYDDIAD** | **21 Mehefin 2022** |
| **GAN** | **Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Mewn cyhoeddiad diweddar, nodais y câi darpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 eu dwyn i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

Heddiw, rwyf wedi gosod rhan o drydedd gyfres yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gefnogi'r broses o roi Deddf 2016 ar waith.

Mae'r drydedd gyfres hon yn cynnwys saith offeryn statudol o sylwedd. Mae'r pedwar offeryn a osodwyd heddiw i gyd yn cael eu gwneud drwy weithdrefn gadarnhaol y Senedd, a bwriedir cynnal dadl arnynt yn ystod cyfarfod llawn ar 12 Gorffennaf 2022. Mae'r offerynnau fel a ganlyn:

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022***

Mae'r OS hwn yn gwneud cyfres o ddiwygiadau i Atodlenni 2, 3, 8A, 9, 9B a 9C i Ddeddf 2016.
Mae'r diwygiadau hyn yn darparu nad yw tenantiaethau neu drwyddedau ar gyfer mathau penodol o lety sy'n ymwneud â mechnïaeth neu brawf, neu â mewnfudo neu loches, yn gontractau meddiannaeth. Mae'r diwygiadau hefyd yn adlewyrchu nifer o newidiadau diweddar i'r gyfraith sy'n ymwneud â darpariaeth y math hwn o lety.

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022***

Mae Atodlen 12 yn nodi trefniadau ar gyfer tenantiaethau a thrwyddedau sydd eisoes yn bodoli a fydd yn cael eu trosi'n gontractau meddiannaeth pan ddaw Deddf 2016 i rym. Diben yr Atodlen yw sicrhau bod y broses o drosi mor llyfn â phosibl a bod partïon y tenantiaethau a'r trwyddedau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu trin yn deg pan fo'u tenantiaeth neu drwydded yn cael ei throsi'n gontract meddiannaeth, gan sicrhau y cedwir cydbwysedd cywir mewn cysylltiad â hawliau a rhwymedigaethau'r ddau barti.

Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan yr OS hwn yn cynnwys:

- Diogelu hawliau presennol pobl 16 neu 17 oed sydd ar hyn o bryd yn ddeiliaid tenantiaeth sicr sy'n drwydded, neu'n feddiannaeth amaethyddol sicr sy'n drwydded;
- Darpariaeth ynghylch pa fathau o denantiaeth a thrwydded a all drosi'n gontractau safonol â chymorth: dim ond tenantiaethau a thrwyddedau byrddaliol sicr a thrwyddedau fydd yn trosi'n gontractau safonol â chymorth a, phan fo trosi'n digwydd, ni fydd pob un o'r darpariaethau sy'n ymwneud â chontractau safonol â chymorth yn Neddf 2016 yn berthnasol i'r contract hwnnw sydd wedi ei drosi;
- Ychwanegu tenantiaethau cychwynnol at y rhestr o denantiaethau cyfredol a fydd yn trosi'n denantiaethau safonol rhagarweiniol;
- Darparu nad yw'r gofynion o ran y cynlluniau blaendal ond yn berthnasol i denantiaethau byrddaliol sicr sydd wedi eu trosi, a gwneud ystod o ddarpariaethau ynghylch y trefniadau ar gyfer amrywio rhent ar gyfer mathau penodol o denantiaethau;
- Diogelu, cyn belled ag y bo'n bosibl, hawliau unrhyw un sy'n ddeiliad meddiannaeth amaethyddol sicr ar hyn o bryd; a
- Sicrhau, yn achos tenantiaethau cyfnod penodol pan fo'r cyfnod penodol yn dod i ben, a bod y contract yn dod yn gyfnodol cyn 1 Rhagfyr, y bydd cyfnod yr hysbysiad dim bai presennol o ddau fis yn parhau i fod yn gymwys ar ôl 1 Rhagfyr. Yn achos contractau cyfnod penodol sy'n trosi ar 1 Rhagfyr ac sydd wedyn yn dod yn gyfnodol (os nad yw'r landlord yn ceisio meddiannaeth ar ddiwedd y cyfnod penodol drwy gyflwyno hysbysiad dim bai o ddau fis), bydd yr hysbysiad chwe mis yn gymwys i'r contract cyfnodol newydd sy'n dilyn y cyfnod penodol.

- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022***

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf 2016.

Yn gyffredinol, mae'r diwygiadau hyn naill ai:

a. yn sicrhau bod darpariaeth bresennol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn parhau i gael effaith briodol drwy

   i. cyfeirio at gontractau meddiannaeth perthnasol ochr yn ochr â chyfeiriadau at fathau o denantiaeth sydd eisoes yn bodoli, neu

   ii. yn cynnwys y derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2016;

   neu,

b. pan fwriedir i ddarpariaethau Deddf 2016 ddisodli elfennau o'r gyfraith bresennol, neu pan nad yw'r gyfraith bresennol yn gydnaws â'r hyn a nodir yn Neddf 2016, drwy ddatgymhwyso'r gyfraith honno.

Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn rhoi Deddf 2016 ar waith, darparu cydlyniant ac eglurder a sicrhau cysondeb y gyfraith.

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithasau Tai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022***

Mae'r OS hwn yn darparu nad yw'r adrannau perthnasol o Ddeddf 2016 sy'n ymwneud ag amrywio rhent, sy'n gymwys i gontractau diogel neu gontractau safonol cyfnodol, yn ddarpariaethau sylfaenol o gontractau meddiannaeth sy'n denantiaethau cymdeithasau tai (o fewn yr ystyr a roddir i "housing association tenancy" yn Rhan 6 o Ddeddf Rhent 1977 ("Deddf 1977")).

Mae'r OS hwn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2016 ac i adran 93 o Ddeddf 1977 hefyd. Effaith gyffredinol yr OS hwn yw bod y trefniadau a'r amddiffyniadau cyfredol sy'n gymwys i amrywio rhent mewn perthynas â'r tenantiaethau penodol hyn yn parhau i fod yn gymwys.

Gellir dod o hyd i bob un o'r offerynnau statudol hyn yma.

Byddaf hefyd yn gosod tri OS gweithredu arall  yn fuan. Mae'r rhain yn cael eu gwneud drwy weithdrefn negyddol y Senedd ac felly ni fyddant yn destun dadl yn y Senedd. Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig pellach i rybuddio Aelodau pan fydd yr OSau hynny wedi eu cyhoeddi.

Gellir dod o hyd i ganllawiau ac adnoddau eraill ar gyfer landlordiaid a thenantiaid drwy wefan Rhentu Cartrefi Cymru: https://llyw.cymru/mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi?

# SL(6)226 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022

## Cefndir a diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud cyfres o ddiwygiadau i Atodlen 12 i Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Mae Atodlen 12 yn nodi trefniadau ar gyfer tenantiaethau a thrwyddedau sy’n bodoli ar hyn o bryd a fydd yn trosi’n gontractau meddiannaeth ar y “diwrnod penodedig” (h.y. y diwrnod y daw Deddf 2016 i rym). Cyfeirir at y rhain fel “contractau a gaiff eu trosi”. Mae’r Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn nodi, *“Diben Atodlen 12 yw sicrhau bod y newid mor esmwyth â phosibl a bod y partïon i denantiaethau a thrwyddedau presennol yn cael eu trin yn deg pan fydd eu tenantiaeth neu eu trwydded yn cael ei throi’n gontract meddiannaeth, gan daro ar y cydbwysedd cywir o ran hawliau a rhwymedigaethau'r ddau barti.”*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ceisio mynd i'r afael â nifer o faterion a nodwyd yn ymwneud â'r broses drosi. Maent yn cynnwys:

- Darparu bod trwyddedau a ddelir gan bobl ifanc 16 neu 17 oed sy’n denantiaethau diogel neu’n Feddiannaeth Amaethyddol Sicr (“AAO”) yn trosi’n gontract meddiannaeth;
- Gwneud nifer o ddiwygiadau eraill ynghylch trosi AAOs;
- Gwneud diwygiadau sy’n ymwneud â llety â chymorth ac amlinellu pa denantiaethau a thrwyddedau a allant fod yn gontractau safonol â chymorth, a pha rai na allant fod yn gontractau o’r fath;
- Gwneud diwygiadau mewn perthynas â “tenantiaethau cychwynnol”;
- Darparu nad yw darpariaethau cynllun blaendal Deddf 2016 ond yn gymwys i gontract wedi ei drosi a oedd, yn union cyn y diwrnod penodedig, yn denantiaeth fyrddaliol sicr;
- Darparu, pan fo contract safonol cyfnodol wedi ei drosi a oedd, yn union cyn y diwrnod penodedig, yn denantiaeth sicr a oedd yn cynnwys teler ynghylch amrywio’r rhent, na ellir ond amrywio’r rhent yn unol â’r teler hwnnw, ac na all y landlord ddefnyddio adran 123 o Ddeddf 2016 i amrywio’r rhent;
- Gwneud diwygiadau fel y gall deiliad y contract o dan fathau penodol o gontract wneud cais, o dan reoliadau a wneir o dan baragraff 15(2) o Atodlen 12 i Ddeddf 2016, i bennu’r rhent ar gyfer yr annedd.
- Darparu, pan fo contract sy’n cymryd lle contract arall yn gontract safonol cyfnodol (sydd naill ai yn codi o dan adran 184(2) neu sydd o fewn adran 184(6) o Ddeddf 2016) rhaid i’r landlord roi hysbysiad o 6 mis o dan adran 173 ac ni chaiff y landlord roi hysbysiad adran 173 o fewn y cyfnod o 4 mis sy’n dechrau â’r dyddiad y daeth

deiliad y contract i fod â hawl i feddiannu'r annedd o dan y denantiaeth neu'r drwydded wreiddiol;

- Darparu, mewn perthynas â chontract sy'n cymryd lle contract arall sy'n gontract safonol cyfnodol sy'n codi o dan adran 184(2), mai'r cyfnod hysbysu byrraf o dan adran 174 yw chwe mis (nid dau fis);
- Diwygiadau i egluro effaith darpariaethau penodol a chywiro mân wallau drafftio.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn (sydd hefyd yn cwmpasu Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022) yn nodi:

> *"Oherwydd natur dechnegol y ddau OS hyn a'r ffaith nad oes yr un o'r gwelliannau a gynhwysir ynddynt yn gwneud newid sylweddol i'r safbwyntiau polisi a nodir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal. Fodd bynnag, cafodd nifer o'r materion yr ymdriniwyd â hwy gan y gwelliannau hyn eu codi gyda Llywodraeth Cymru gan randdeiliaid allanol yn gofyn am eglurhad ar gymhwyso'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â mathau penodol o lety. Mae trafodaethau manwl wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio'r materion hyn ac maent wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r gwelliannau."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, sef Atodlen 12 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bumed Senedd wedi cyflwyno adroddiad ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn ystod

trafodion Cyfnod 1. Mae'r Adroddiad yn cyfeirio at fodolaeth pwerau Harri VIII a'r eglurhad a geisiwyd ar y pryd gan y Gweinidog mewn perthynas â'r cyfiawnhad fod rhai pwerau yn y Bil yn bwerau Harri VIII. Ymateb y Gweinidog oedd:

> "*Mae'r Atodlenni i Ddeddf 2016 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru eu diwygio, am y bydd angen i ni adolygu'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodlenni hyn wrth i'r tirlun tai esblygu dros amser. Mae angen i ni gael yr hyblygrwydd i ymateb i'r newidiadau hynny a gwneud darpariaethau priodol o fewn yr Atodlenni amrywiol, yn ôl yr angen. Mae'r Bil hwn felly yn mabwysiadu'r un dull gweithredu. Ymddengys mai'r dewis amgen fyddai rheoliadau a fyddai hefyd yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol neu, fel arall, byddai angen eu darllen ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth sylfaenol, gan olygu y byddai rhai o'r manylion yn syrthio y tu allan i'r ddeddfwriaeth sylfaenol, yn yr is-ddeddfwriaeth, a all, ynddo'i hun, ddenu beirniadaeth o ran materion yn ymwneud â chraffu a hygyrchedd y gyfraith.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Gorffennaf 2022**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rhoi Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar waith: gosod yr offerynnau cadarnhaol yn nhrydedd gyfres yr is-ddeddfwriaeth** |
| **DYDDIAD** | **21 Mehefin 2022** |
| **GAN** | **Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Mewn cyhoeddiad diweddar, nodais y câi darpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 eu dwyn i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

Heddiw, rwyf wedi gosod rhan o drydedd gyfres yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gefnogi'r broses o roi Deddf 2016 ar waith.

Mae'r drydedd gyfres hon yn cynnwys saith offeryn statudol o sylwedd. Mae'r pedwar offeryn a osodwyd heddiw i gyd yn cael eu gwneud drwy weithdrefn gadarnhaol y Senedd, a bwriedir cynnal dadl arnynt yn ystod cyfarfod llawn ar 12 Gorffennaf 2022. Mae'r offerynnau fel a ganlyn:

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022***

Mae'r OS hwn yn gwneud cyfres o ddiwygiadau i Atodlenni 2, 3, 8A, 9, 9B a 9C i Ddeddf 2016.
Mae'r diwygiadau hyn yn darparu nad yw tenantiaethau neu drwyddedau ar gyfer mathau penodol o lety sy'n ymwneud â mechnïaeth neu brawf, neu â mewnfudo neu loches, yn gontractau meddiannaeth. Mae'r diwygiadau hefyd yn adlewyrchu nifer o newidiadau diweddar i'r gyfraith sy'n ymwneud â darpariaeth y math hwn o lety.

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022***

Mae Atodlen 12 yn nodi trefniadau ar gyfer tenantiaethau a thrwyddedau sydd eisoes yn bodoli a fydd yn cael eu trosi'n gontractau meddiannaeth pan ddaw Deddf 2016 i rym. Diben yr Atodlen yw sicrhau bod y broses o drosi mor llyfn â phosibl a bod partïon y tenantiaethau a'r trwyddedau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu trin yn deg pan fo'u tenantiaeth neu drwydded yn cael ei throsi'n gontract meddiannaeth, gan sicrhau y cedwir cydbwysedd cywir mewn cysylltiad â hawliau a rhwymedigaethau'r ddau barti.

Mae’r diwygiadau sy’n cael eu gwneud gan yr OS hwn yn cynnwys:

- Diogelu hawliau presennol pobl 16 neu 17 oed sydd ar hyn o bryd yn ddeiliaid tenantiaeth sicr sy’n drwydded, neu’n feddiannaeth amaethyddol sicr sy’n drwydded;
- Darpariaeth ynghylch pa fathau o denantiaeth a thrwydded a all drosi’n gontractau safonol â chymorth: dim ond tenantiaethau a thrwyddedau byrddaliol sicr a thrwyddedau fydd yn trosi’n gontractau safonol â chymorth a, phan fo trosi’n digwydd, ni fydd pob un o’r darpariaethau sy’n ymwneud â chontractau safonol â chymorth yn Neddf 2016 yn berthnasol i’r contract hwnnw sydd wedi ei drosi;
- Ychwanegu tenantiaethau cychwynnol at y rhestr o denantiaethau cyfredol a fydd yn trosi’n denantiaethau safonol rhagarweiniol;
- Darparu nad yw’r gofynion o ran y cynlluniau blaendal ond yn berthnasol i denantiaethau byrddaliol sicr sydd wedi eu trosi, a gwneud ystod o ddarpariaethau ynghylch y trefniadau ar gyfer amrywio rhent ar gyfer mathau penodol o denantiaethau;
- Diogelu, cyn belled ag y bo’n bosibl, hawliau unrhyw un sy’n ddeiliad meddiannaeth amaethyddol sicr ar hyn o bryd; a
- Sicrhau, yn achos tenantiaethau cyfnod penodol pan fo’r cyfnod penodol yn dod i ben, a bod y contract yn dod yn gyfnodol cyn 1 Rhagfyr, y bydd cyfnod yr hysbysiad dim bai presennol o ddau fis yn parhau i fod yn gymwys ar ôl 1 Rhagfyr. Yn achos contractau cyfnod penodol sy’n trosi ar 1 Rhagfyr ac sydd wedyn yn dod yn gyfnodol (os nad yw’r landlord yn ceisio meddiannaeth ar ddiwedd y cyfnod penodol drwy gyflwyno hysbysiad dim bai o ddau fis), bydd yr hysbysiad chwe mis yn gymwys i’r contract cyfnodol newydd sy’n dilyn y cyfnod penodol.

- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022***

  Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf 2016.

  Yn gyffredinol, mae’r diwygiadau hyn naill ai:

  a. yn sicrhau bod darpariaeth bresennol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn parhau i gael effaith briodol drwy

     i. cyfeirio at gontractau meddiannaeth perthnasol ochr yn ochr â chyfeiriadau at fathau o denantiaeth sydd eisoes yn bodoli, neu

     ii. yn cynnwys y derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2016;

     neu,

b. pan fwriedir i ddarpariaethau Deddf 2016 ddisodli elfennau o’r gyfraith bresennol, neu pan nad yw’r gyfraith bresennol yn gydnaws â’r hyn a nodir yn Neddf 2016, drwy ddatgymhwyso’r gyfraith honno.

Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn rhoi Deddf 2016 ar waith, darparu cydlyniant ac eglurder a sicrhau cysondeb y gyfraith.

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithasau Tai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022***

Mae’r OS hwn yn darparu nad yw’r adrannau perthnasol o Ddeddf 2016 sy’n ymwneud ag amrywio rhent, sy’n gymwys i gontractau diogel neu gontractau safonol cyfnodol, yn ddarpariaethau sylfaenol o gontractau meddiannaeth sy’n denantiaethau cymdeithasau tai (o fewn yr ystyr a roddir i “housing association tenancy” yn Rhan 6 o Ddeddf Rhent 1977 (“Deddf 1977”)).

Mae’r OS hwn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2016 ac i adran 93 o Ddeddf 1977 hefyd. Effaith gyffredinol yr OS hwn yw bod y trefniadau a’r amddiffyniadau cyfredol sy’n gymwys i amrywio rhent mewn perthynas â’r tenantiaethau penodol hyn yn parhau i fod yn gymwys.

Gellir dod o hyd i bob un o’r offerynnau statudol hyn yma.

Byddaf hefyd yn gosod tri OS gweithredu arall  yn fuan. Mae’r rhain yn cael eu gwneud drwy weithdrefn negyddol y Senedd ac felly ni fyddant yn destun dadl yn y Senedd. Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig pellach i rybuddio Aelodau pan fydd yr OSau hynny wedi eu cyhoeddi.

Gellir dod o hyd i ganllawiau ac adnoddau eraill ar gyfer landlordiaid a thenantiaid drwy wefan Rhentu Cartrefi Cymru: https://llyw.cymru/mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi?

# SL(6)227 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlenni 2, 3, 8A, 9, 9B a 9C i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Mewnfudo 2016 a Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021.

At ddibenion y Rheoliadau hyn:

- Mae Atodlen 2 i'r Ddeddf yn rhestru'r tenantiaethau a'r trwyddedau hynny na allant fyth fod yn gontractau meddiannaeth o dan y Ddeddf, er eu bod yn dod o fewn y rheol gyffredinol a nodir yn adran 7 o'r Ddeddf, sy'n penderfynu a yw tenantiaeth neu drwydded yn gontract meddiannaeth ac felly'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf.
- Mae Atodlen 3 i'r Ddeddf yn rhestru ystod o gontractau meddiannaeth sydd wedi'u heithrio o'r rheol gyffredinol o dan adrannau 11 a 12 o'r Ddeddf bod landlordiaid cymunedol yn darparu contractau diogel.
- Mae Atodlen 8A i'r Ddeddf yn rhestru'r mathau hynny o gontractau safonol y gellir eu terfynu heb lai na dau fis o rybudd o dan hysbysiad neu gymal terfynu landlord (yn hytrach na'r cyfnod rhybudd o chwe mis sy'n gymwys mewn perthynas â phob contract meddiannaeth safonol arall).
- Mae Atodlen 9 yn rhestru'r mathau hynny o gontractau y gellir eu terfynu o fewn chwe mis cyntaf y dyddiad meddiannu.
- Mae Atodlen 9B yn rhestru'r mathau hynny o gontractau safonol cyfnod penodol y caniateir eu terfynu ar ddiwedd y cyfnod penodol gyda dau fis o rybudd drwy hysbysiad landlord.
- Mae Atodlen 9C yn rhestru'r contractau safonol cyfnod penodol hynny a all gynnwys cymal terfynu landlord, nad yw'r Ddeddf yn gyffredinol yn ei ganiatáu.

Mae rheoliad 2 yn ychwanegu tenantiaethau a thrwyddedau sy'n ymwneud â llety mechnïaeth a phrawf yn ogystal â llety lloches a mewnfudo i'r rhestr yn Rhan 3 o Atodlen 2, sy'n golygu na fyddant fel arfer yn gontractau meddiannaeth o dan y Ddeddf.

Mae rheoliadau 3 i 7 yn diwygio Atodlenni 3, 8A, 9, 9B a 9C i'r Ddeddf i ddileu'r cyfeiriad at fathau penodol o lety a ddarperir ar gyfer ceiswyr lloches etc. o'r rhestr o esemptiadau ym mhob un o'r Atodlenni hynny.

Mae rheoliad 8 yn gwneud diwygiad canlyniadol i Ddeddf Mewnfudo 2016 i sicrhau, na fydd paragraff 7(3)(k)(i) o Atodlen 2 (fel y'i mewnosodir gan reoliad 2 o'r Offeryn hwn) yn cyfeirio mwyach at adran 4 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, pan gaiff byr adran honno ei diddymu,
.

Mae rheoliad 9 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 6 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth yn rheoliadau 3 a 5.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Mewnfudo 2016 a Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) Cymru 2021 gan ddibynnu ar bwerau galluogi a gynhwysir yn adran 255 o'r Ddeddf.

Mae'r testun italig ar ben y Rheoliadau hyn a'r rhagarweiniad yn cyfeirio at adrannau 256(3) a (4)(h), (i), (la), (m), (mb) a (mc) o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod rheoliadau sy'n diwygio Atodlenni 2, 3, 8A, 9, 9B a 9C i'r Ddeddf yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae adran 256(5) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol pan gânt eu gwneud o dan y Ddeddf a diwygio, addasu neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf yn y Senedd. Ymddengys felly y dylai'r testun italig ar ben y Rheoliadau hyn a'r rhagarweiniad hefyd gyfeirio at adran 256(5) o'r Ddeddf.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn (sydd hefyd yn cwmpasu Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022) yn nodi:

> *"Oherwydd natur dechnegol y ddau Offeryn Statudol hyn a'r ffaith nad oes yr un o'r gwelliannau y maent yn eu cynnwys yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i safbwyntiau polisi a nodir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal.*

*Fodd bynnag, codwyd nifer o'r materion y rhoddwyd sylw iddynt yn y gwelliannau hyn gyda Llywodraeth Cymru gan randdeiliaid allanol yn ceisio eglurhad ar gymhwyso'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â mathau penodol o lety. Mae trafodaethau manwl wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio'r materion hyn ac maent wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r gwelliannau."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, sef Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Deddf Mewnfudo 2016 a Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bumed Senedd wedi cyflwyno adroddiad ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn ystod trafodion Cyfnod 1. Mae'r Adroddiad yn cyfeirio at fodolaeth pwerau Harri VIII a'r eglurhad a geisir ar y pryd gan y Gweinidog mewn perthynas â'r cyfiawnhad fod pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau penodol yn y Bil hwnnw yn bŵer Harri VIII. Ymateb y Gweinidog oedd:

*"Mae'r Atodlenni i Ddeddf 2016 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru eu diwygio, am y bydd angen i ni adolygu'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodlenni hyn wrth i'r tirlun tai esblygu dros amser. Mae angen i ni gael yr hyblygrwydd i ymateb i'r newidiadau hynny a gwneud darpariaethau priodol o fewn yr Atodlenni amrywiol, yn ôl yr angen. Mae'r Bil hwn felly yn mabwysiadu'r un dull gweithredu. Ymddengys mai'r dewis amgen fyddai rheoliadau a fyddai hefyd yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol neu, fel arall, byddai angen eu darllen ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth sylfaenol, gan olygu y byddai rhai o'r manylion yn syrthio y tu allan i'r ddeddfwriaeth sylfaenol, yn yr is-ddeddfwriaeth, a all, ynddo'i hun, ddenu beirniadaeth o ran materion yn ymwneud â chraffu a hygyrchedd y gyfraith."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar y pwynt craffu technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**6 Gorffennaf 2022**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rhoi Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar waith: gosod yr offerynnau cadarnhaol yn nhrydedd gyfres yr is-ddeddfwriaeth** |
| **DYDDIAD** | **21 Mehefin 2022** |
| **GAN** | **Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Mewn cyhoeddiad diweddar, nodais y câi darpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 eu dwyn i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

Heddiw, rwyf wedi gosod rhan o drydedd gyfres yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gefnogi'r broses o roi Deddf 2016 ar waith.

Mae'r drydedd gyfres hon yn cynnwys saith offeryn statudol o sylwedd. Mae'r pedwar offeryn a osodwyd heddiw i gyd yn cael eu gwneud drwy weithdrefn gadarnhaol y Senedd, a bwriedir cynnal dadl arnynt yn ystod cyfarfod llawn ar 12 Gorffennaf 2022. Mae'r offerynnau fel a ganlyn:

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022***

Mae'r OS hwn yn gwneud cyfres o ddiwygiadau i Atodlenni 2, 3, 8A, 9, 9B a 9C i Ddeddf 2016.
Mae'r diwygiadau hyn yn darparu nad yw tenantiaethau neu drwyddedau ar gyfer mathau penodol o lety sy'n ymwneud â mechnïaeth neu brawf, neu â mewnfudo neu loches, yn gontractau meddiannaeth. Mae'r diwygiadau hefyd yn adlewyrchu nifer o newidiadau diweddar i'r gyfraith sy'n ymwneud â darpariaeth y math hwn o lety.

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022***

Mae Atodlen 12 yn nodi trefniadau ar gyfer tenantiaethau a thrwyddedau sydd eisoes yn bodoli a fydd yn cael eu trosi'n gontractau meddiannaeth pan ddaw Deddf 2016 i rym. Diben yr Atodlen yw sicrhau bod y broses o drosi mor llyfn â phosibl a bod partïon y tenantiaethau a'r trwyddedau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu trin yn deg pan fo'u tenantiaeth neu drwydded yn cael ei throsi'n gontract meddiannaeth, gan sicrhau y cedwir cydbwysedd cywir mewn cysylltiad â hawliau a rhwymedigaethau'r ddau barti.

Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan yr OS hwn yn cynnwys:

- Diogelu hawliau presennol pobl 16 neu 17 oed sydd ar hyn o bryd yn ddeiliaid tenantiaeth sicr sy'n drwydded, neu'n feddiannaeth amaethyddol sicr sy'n drwydded;
- Darpariaeth ynghylch pa fathau o denantiaeth a thrwydded a all drosi'n gontractau safonol â chymorth: dim ond tenantiaethau a thrwyddedau byrddaliol sicr a thrwyddedau fydd yn trosi'n gontractau safonol â chymorth a, phan fo trosi'n digwydd, ni fydd pob un o'r darpariaethau sy'n ymwneud â chontractau safonol â chymorth yn Neddf 2016 yn berthnasol i'r contract hwnnw sydd wedi ei drosi;
- Ychwanegu tenantiaethau cychwynnol at y rhestr o denantiaethau cyfredol a fydd yn trosi'n denantiaethau safonol rhagarweiniol;
- Darparu nad yw'r gofynion o ran y cynlluniau blaendal ond yn berthnasol i denantiaethau byrddaliol sicr sydd wedi eu trosi, a gwneud ystod o ddarpariaethau ynghylch y trefniadau ar gyfer amrywio rhent ar gyfer mathau penodol o denantiaethau;
- Diogelu, cyn belled ag y bo'n bosibl, hawliau unrhyw un sy'n ddeiliad meddiannaeth amaethyddol sicr ar hyn o bryd; a
- Sicrhau, yn achos tenantiaethau cyfnod penodol pan fo'r cyfnod penodol yn dod i ben, a bod y contract yn dod yn gyfnodol cyn 1 Rhagfyr, y bydd cyfnod yr hysbysiad dim bai presennol o ddau fis yn parhau i fod yn gymwys ar ôl 1 Rhagfyr. Yn achos contractau cyfnod penodol sy'n trosi ar 1 Rhagfyr ac sydd wedyn yn dod yn gyfnodol (os nad yw'r landlord yn ceisio meddiannaeth ar ddiwedd y cyfnod penodol drwy gyflwyno hysbysiad dim bai o ddau fis), bydd yr hysbysiad chwe mis yn gymwys i'r contract cyfnodol newydd sy'n dilyn y cyfnod penodol.

- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022***

  Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf 2016.

  Yn gyffredinol, mae'r diwygiadau hyn naill ai:

  a. yn sicrhau bod darpariaeth bresennol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn parhau i gael effaith briodol drwy

     i. cyfeirio at gontractau meddiannaeth perthnasol ochr yn ochr â chyfeiriadau at fathau o denantiaeth sydd eisoes yn bodoli, neu

     ii. yn cynnwys y derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2016;

     neu,

b. pan fwriedir i ddarpariaethau Deddf 2016 ddisodli elfennau o’r gyfraith bresennol, neu pan nad yw’r gyfraith bresennol yn gydnaws â’r hyn a nodir yn Neddf 2016, drwy ddatgymhwyso’r gyfraith honno.

Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn rhoi Deddf 2016 ar waith, darparu cydlyniant ac eglurder a sicrhau cysondeb y gyfraith.

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithasau Tai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022***

Mae’r OS hwn yn darparu nad yw’r adrannau perthnasol o Ddeddf 2016 sy’n ymwneud ag amrywio rhent, sy’n gymwys i gontractau diogel neu gontractau safonol cyfnodol, yn ddarpariaethau sylfaenol o gontractau meddiannaeth sy’n denantiaethau cymdeithasau tai (o fewn yr ystyr a roddir i “housing association tenancy” yn Rhan 6 o Ddeddf Rhent 1977 (“Deddf 1977”)).

Mae’r OS hwn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2016 ac i adran 93 o Ddeddf 1977 hefyd. Effaith gyffredinol yr OS hwn yw bod y trefniadau a’r amddiffyniadau cyfredol sy’n gymwys i amrywio rhent mewn perthynas â’r tenantiaethau penodol hyn yn parhau i fod yn gymwys.

Gellir dod o hyd i bob un o’r offerynnau statudol hyn yma.

Byddaf hefyd yn gosod tri OS gweithredu arall yn fuan. Mae’r rhain yn cael eu gwneud drwy weithdrefn negyddol y Senedd ac felly ni fyddant yn destun dadl yn y Senedd. Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig pellach i rybuddio Aelodau pan fydd yr OSau hynny wedi eu cyhoeddi.

Gellir dod o hyd i ganllawiau ac adnoddau eraill ar gyfer landlordiaid a thenantiaid drwy wefan Rhentu Cartrefi Cymru: https://llyw.cymru/mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi?

# SL(6)229 – The Renting Homes (Wales) Act 2016 (Consequential Amendments) Regulations 2022

## Background and Purpose

These Regulations make amendments to primary legislation in consequence of the provisions of the Renting Homes (Wales) Act 2016 ("the 2016 Act").

Generally, these amendments either:

(a) ensure that existing provision in primary legislation continues to have appropriate effect by referencing the relevant occupation contracts alongside references to existing types of tenancies or by including the terminology used in the 2016 Act; or
(b) where the provisions of the 2016 Act are intended to replace elements of existing law or the existing law is incompatible with that set out in the 2016 Act, by disapplying that law.

The Explanatory Memorandum to the Regulations states that these amendments are necessary to implement the 2016 Act, provide coherence and clarity, and ensure consistency of the law.

## Procedure

Draft Affirmative.

The Welsh Ministers have laid a draft of the Regulations before the Senedd. The Welsh Ministers cannot make the Regulations unless the Senedd approves the draft Regulations.

## Technical Scrutiny

The following 31 points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

**1. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

Regulation 10 inserts wording into section 60A of the County Courts Act 1984 ("the 1984 Act"). Section 60A is not yet in force, it will be brought into force when section 191 of the Legal Services Act 2007 comes into force. The Welsh Government is asked to explain why regulation 2 does not state that regulation 10 is to come into force immediately after section 191 of the Legal Services Act 2007 comes into force.

**2. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Further in relation to regulation 10, the current wording of section 60A(3) of the 1984 Act refers in paragraph (a) to the Housing Act 1985 ("the 1985 Act"), then goes on in paragraph

(b) to refer to "the Act", meaning the 1985 Act referred to in the previous paragraph (a). However, regulation 10(2)(a)(i) inserts a new paragraph (aa) which will sit in between the existing paragraphs (a) and (b). The new paragraph (aa) refers to the 2016 Act. When this new wording is inserted it is highly likely that upon first reading these provisions readers will think that the Act referred to in paragraph (b) is the 2016 Act not, as it should be, the 1985 Act. The Welsh Government is asked to provide its view in this regard and confirm whether any steps will be taken to remedy this.

**3. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

Regulation 16(2) inserts the wording "in England" after "dwelling-house" in section 1(1) of the Housing Act 1988. However, the phrase "dwelling-house" appears in two instances in section 1(1) and it is not clear if the wording "in England" should be inserted after one or both of those instances.

**4. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

There are several issues in these Regulations which arise when cross-referring to existing legislation:

a. Regulation 6(2) refers to Schedule 1 of the Sexual Offences Act 1956 ("the 1956 Act"). However, the 1956 Act has a First Schedule rather than Schedule 1;

b. Regulation 7 inserts new wording into the Land Compensation Act 1973 ("the 1973 Act"). There are several cross-referencing errors in this regulation:

   i. Regulation 7(2)(a)(ii) makes a reference to "sub-paragraph (v)" but this should refer to "paragraph (v)";

   ii. There is also a typographical error in regulation 7(2)(a)(ii) where the words to be inserted into the 1973 Act should be "or (f)" not "of (f);

   iii. In regulation 7(2)(b)(i) there is reference to "sub-paragraph (e)(iii)", this should be "paragraph (e)(iii)";

   iv. Regulation 7(2)(b)(ii) inserts new wording into section 29(4) of the 1973 Act. It is stated that the new wording is to be inserted after sub-paragraph (iv), but it does not state which paragraph it refers to. The correct reference is paragraph (e)(iv), not sub-paragraph (iv).

c. Regulation 10 inserts new wording into the 1984 Act. There are two cross-referencing errors in this regulation:

   i. Regulation 10(2)(a) inserts new wording into section 60A of the 1984 Act. It refer to "paragraph (3)", but this should be "subsection (3)".

ii. Regulation 10(2)(b) inserts new definitions into section 60A of the 1984 Act. The opening words refer to "paragraph (7)" but this should be "subsection (7)". In the definition of "prohibited conduct standard contract" the words "of the" are repeated. There should also be semi-colons at the end of each definition.

d. Regulation 11(5) inserts new wording into section 32 of the 1985 Act. There are two cross-referencing errors in this regulation:

   i. The heading of section 32 of the 1985 Act is referred to as "power to dispose of land held for the purposes of this Act", but the word "Act" should read "Part".

   ii. In the new subsection (3A)(d)(ii), reference is made to Schedule 3 to the 2016 Act and it is not clear whether the wording in parentheses is intended to be a summary of what Schedule 3 does or whether it is the title of Schedule 3. The wording used is "various forms of occupation contract made with community landlords which may be standard contracts", but the heading of Schedule 3 is "occupation contracts made with or adopted by community landlords which may be standard contracts".

e. Regulation 11(19) refers to the heading of section 247 of the 1985 Act as "changes of ownership of land to be notified to local housing authority". The heading of section 247 of the 1985 Act is "changes of ownership **or occupation** of land to be notified to local housing authority" (emphasis added);

f. Regulation 14(2) amends section 283(3A) of the Insolvency Act 1986. The regulation references subsection (3A) but "3A" has not been bracketed;

g. Regulation 16(3) inserts a new section 1A into the Housing Act 1988 ("the 1988 Act"). At subsections (2) and (4) of that new section 1A, reference is made to "paragraph (3)". As these references are made in relation to a sub-division of a section of an Act of Parliament, these references should instead read "subsection (3)";

h. Regulation 18 amends the Local Government and Housing Act 1989 ("the 1989 Act"). The following cross-referencing errors are noted in that regulation:

   i. Regulation 18(5)(c)(iii) refers to "sub-paragraph 3" of paragraph 2 of Schedule 10 to the 1989 Act. The "3" should be bracketed.

   ii. Regulation 18(5)(d)(ii) refers to "sub-paragraph 5(a)" of paragraph 4 of Schedule 10 to the 1989 Act. The "5" should be bracketed.

   iii. Regulation 18(5)(h)(iv) refers to "sub-paragraph 3(c)" of paragraph 11 of Schedule 10 to the 1989 Act. The "3" should be bracketed.

   iv. Regulation 18(5)(i)(i) refers to "section 24 (incorporation and modification of supplementary terms)". This should instead read "section 24 (incorporation and modification of supplementary **provisions**)" (emphasis added).

i. Regulation 19 amends the Coal Mining Subsidence Act 1991 ("the 1991 Act"). The following cross-referencing errors are noted in that regulation:

    i. Regulation 19(2)(a) inserts a new sub-paragraph (4)(f) into paragraph 1 of Schedule 4 to the 1991 Act. In doing so, the regulation states, "(a) in sub-paragraph (4), after (e), insert–". It should state, "(a) in sub-paragraph (4), after **paragraph** (e), insert–" (emphasis added);

    ii. Regulation 19(2)(b) inserts a new sub-paragraph (7) into paragraph 1 of Schedule 4 to the 1991 Act. However, the regulation refers to this sub-paragraph being inserted after "paragraph (6)", rather than "**sub-**paragraph (6)" (emphasis added).

j. Regulation 23(2) inserts a new section 1(8) into the Landlord and Tenant (Covenants) Act 1995. In doing so, the regulation reads "After subsection 1(7)…". It should read, "After **section** 1(7)…" (emphasis added).

k. There are instances of incorrect chapter numbers being cited when referring to Acts of Parliament in the Regulations:

    i. Regulation 14(2)(a) makes reference to "the Rent Act 1977 (c. 47)". This should read "the Rent Act 1977 (**c. 42**)" (emphasis added). 1977 c. 47 would take readers to the Local Authorities (Restoration of Works Powers) Act 1977;

    ii. Regulation 16(3) makes reference to "the Local Government and Housing Act 1989 (c. 49)". This should read "the Local Government and Housing Act 1989 (**c. 42**)" (emphasis added). 1989 c. 49 does not correspond to an Act of Parliament.

**5. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 11(5)(b) inserts new a new subsection (3A) into section 32 of the 1985 Act. The new subsection (3A) refers to a supported standard contract. However, no definition of a supported standard contract appears in the 1985 Act. Regulation 11 goes on to insert a definition of a standard contract into the 1985 Act but not a supported standard contract.

**6. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 11(8) inserts new wording into the 1985 Act to set out where in that Act the new definitions inserted by regulation 11(7) will appear. Regulation 11(7) inserts a new definition for an "occupation contract" but this is not included in regulation 11(8). There are also no opening and closing quotation marks around the wording to be inserted by regulation 11(8) (the same issue arises in relation to regulations 11(18) and 11(25)).

**7. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 11(11)(b) omits wording from section 85ZA of the 1985 Act which is the result of the omission of section 85ZA(8) effected by regulation 11(11)(a). Regulation 11(11)(b) therefore removes the words "and (8)" from section 85ZA(9), but does not remove the plural "subsections" in the preceding wording. The amendment should therefore substitute "subsections (7) and (8)" with "subsection (7)" in order for the legislation to make sense.

**8. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 11(23) amends section 554 of the 1985 Act. However, the structure of the amendments set out in regulation 11(23)(b) makes it unclear how such amendments are to take effect. It appears that regulation 11(23)(b)(i) should actually be regulation 11(23)(b) and that regulation 11(23)(b)(ii) should actually be regulation 11(23)(c) in order for this regulation to make sense.

**9. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 16(4) omits certain wording from section 8(4A)(a) and (4B) of the 1988 Act. However, it appears that paragraph 6(c) of Schedule 29 to the Coronavirus Act 2020 (as amended) ("the 2020 Act") only required that those provisions *be read* in the way suggested by regulation 16(4), rather than inserting the wording that regulation 16(4) seeks to omit. Regardless, that provision of the 2020 Act expired on 25 March 2022. Clarification is sought as to why regulation 16(4) has been considered necessary.

**10. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 16(9) inserts a definition of "secure contract" into section 45 of the 1988 Act by linking the term to its meaning in section 8 of the 2016 Act. It appears that the word "same" is missing from the associated explanation. The regulation should read, ""secure contract" has the **same** meaning as in the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1) (see section 8 of that Act);" (emphasis added).

**11. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 18(5)(c)(iv) inserts a definition of "the 2016 Act" into paragraph 2(6) of Schedule 10 to the 1989 Act. It appears that the intention is to insert this definition after the definition of the "Housing Act 1988," but, as currently drafted, the regulation suggests that the definition of "the 2016 Act" is to be inserted immediately after the words "Housing Act 1988,".

A semi-colon should also appear within the quoted term relating to the 1988 Act, rather than a comma. It currently reads "Housing Act 1988**,**" (emphasis added), but should read "Housing Act 1988**;**".

**12. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 18(5)(d)(v) inserts the wording "or an occupation contract" into paragraph 4(7)(a) of Schedule 10 to the 1989 Act. In the English text, the closing quotation marks around the inserted wording are missing. This error does not occur in the Welsh text.

**13. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 18(5)(e)(iv) inserts a new sub-paragraph (3)(cc) into paragraph 6 of Schedule 10 to the 1989 Act. In the Welsh version of the Regulations, there is a typographical error, as the new paragraph (cc) begins "**n** relation to…", rather than "**in** relation to…" (emphasis added). This error does not occur in the English version.

**14. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 18(5)(f)(v) amends paragraph 9(4) of Schedule 10 to the 1989 Act to insert wording after "assured periodic contract" in both places it occurs. However, "assured periodic contract" does not appear in paragraph 9(4) of Schedule 10. It appears that the regulation should refer to "assured periodic **tenancy**" (emphasis added), which does appear twice in the paragraph.

**15. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Closing quotation marks around the wording are missing from some provisions:

a. Regulation 18(5)(h)(i) inserts the wording "or the periodic standard contract" into paragraph 11(1)(a) of Schedule 10 to the 1989 Act;

b. Regulation 34(4)(a):

    i. in paragraph (i), in the English text, there is a missing set of closing quotation marks between the 2 semi-colons at the end of the definition of "contract-holder"; and

    ii. in paragraph (ii), there is a missing set of closing quotation marks at the end of "or an occupation contract".

**16. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 18(5)(h)(ix) inserts wording into paragraph 11(8)(c) of Schedule 10 to the 1989 Act, after "assured periodic tenancy". However, "assured periodic tenancy" appears in the text appearing after paragraph (c), rather than within that paragraph. Therefore, the regulation should refer to paragraph 11(8) of Schedule 10 to the 1989 Act, rather than paragraph 11(8)(c).

This defect has a knock-on effect in relation to regulation 18(5)(h)(x). That regulation inserts a new paragraph (d) into paragraph 11(8) of Schedule 10 to the 1989 Act. As the regulations appear to have considered the wording appearing after paragraph 11(8)(c) to form part of paragraph (c), regulation 18(5)(h)(x) causes the wording currently appearing after paragraph 11(8)(c) to subsequently appear after the new paragraph (d). This does not appear to have been the intention of regulation 18(5)(h)(ix) and (x).

**17. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

Regulation 22(4)(a) inserts wording into section 69(3)(c) of the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 ("the 1993 Act"). In doing so, reference is made to "that Act". However, "that Act" is not defined for the purposes of the section and it is not clear to which Act of Parliament it refers. Preceding section 69(3)(c), reference is made in section 69 to the Leasehold Reform Act 1967, the Housing Act 1996, and the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

**18. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 22(4)(b) inserts a new subsection (3A) into section 69 of the 1993 Act. Paragraph (a) of that new subsection appears to contain a drafting error in that it states "(see section 18 (see also section 19) [sic] of that Act)". Whilst the references to section 18 and 19 of the 2016 Act appear correct, that sentence requires amending.

**19. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 22(5)(h) inserts a new paragraph 5 into Schedule 9 to the 1993 Act. However, the new paragraph 5 does not substitute the pre-existing paragraph 5, nor does that appear to be the intention of the regulation. Therefore, as currently drafted, Schedule 9 to the 1993 Act would contain two versions of paragraph 5. The regulation should instead insert the provision as "paragraph 4A".

**20. Standing Order 21.2(viii) – that it uses gender specific language.**

These Regulations include gender specific language in two places:

a. Regulation 24(3)(b)(ii), which inserts new sub-paragraph (7) into paragraph 7 of Schedule 7 to the Family Law Act 1996, includes the use of "his" in three places; and

b. Regulation 25(15)(b), which inserts text into section 160A(8) of the Housing Act 1996 ("the 1996 Act"), includes the use of "he".

**21. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 24(3)(b) inserts text following "Chapter 1 of Part V of the Housing Act 1996", but appears to be missing "or" from the start of the inserted text.

**22. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 25(4)(d) substitutes "Subsection (1)(A)" in section 124(3) of the 1996 Act, but there is no subsection (1)(a). It appears that this should be "Subsection (1A)".

**23. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 25, which amends the 1996 Act, includes a number of omissions that do appear to be incorrect:

- Regulation 25(9)(a) omits section 143E(3)(a)(ii) of the 1996 Act, but there is no subsection (3)(a)(ii) in section 143E. It is not clear which provision should be omitted.
- Regulation 25(11) omits the wording "or 143H" from section 143I(1) of the 1996 Act, but the wording within that section is "or 143H(3)".

**24. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 27(2)(b) includes, in the new paragraph 3A(1), the text "referred to in this Part as "the 2016 Act"", but the definition is only used in paragraph 3A, and there are not any Parts in Schedule 7 to the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002. It appears that the reference to "Part" should be to "paragraph".

**25. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

Regulation 32 amends the Prevention of Social Housing Fraud Act 2013 to add references to "secure contract" alongside existing references to "assured tenancies". Within those sections amended by Regulation 32, there are references to "tenant" and "tenancy". It would appear that in place of those terms, the legislation should refer to "contract-holder" and "occupation contract". It is noted that the Consumer Rights Act 2015 is amended by Regulation 34 to insert references to "contract-holder" and "occupation contract" alongside tenant and tenancy respectively.

**26. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 32(5)(d) provides for the insertion of text, but does not include a reference to the subsection to be amended. It is not clear how the amendment could operate without a reference to the provision to which it applies.

**27. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 33(2) includes a reference to "the tenant's share (within the meaning given by that section)". It appears that the text should be "the tenant's **total** share (within the meaning given by that section)" because "total share" is a defined term in section 7(7) of the 1993 Act.

**28. Standing Order 21.2(vi) – that its drafting appears to be defective or it fails to fulfil statutory requirements.**

Regulation 34(4)(b) provides for the substitution of text within the definition of "long lease". Subparagraph (ii) refers to "paragraph (a), but following the amendment to the paragraphs within the definition, this appears to be incorrect, and should instead refer to "subparagraph (i)".

**29. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

Regulation 34(4)(b) provides for the substitution of text within the definition of "long lease", and specifically inserts the text "has the meaning given by paragraph 8 of Schedule 2 to the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1)". Paragraph 8 of Schedule 2 to the 2016 Act uses the term "long tenancy", and it would appear appropriate to reference that term within the inserted text.

**30. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

In Regulation 33(12)(a), the definition of "occupation contract" is inserted after the definition of "looked after, accommodated or fostered". Elsewhere in these Regulations, the phrase "in the appropriate place in the alphabetical order insert" has been used when introducing new definitions. It would seem more appropriate here to use that latter approach, as the English and Welsh text are introducing the new definition after different definitions because of the different order of definitions in both language texts.

**31. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation.**

In Regulation 34(4)(b), the amendment that begins "in the definition of "long lease"..." is incorrectly numbered as subparagraph (b). It appears that this should be numbered as paragraph (iii), as it also is amending a definition found within section 88(1).

As a result, it appears that subparagraph (c) is also incorrectly numbered and should be subparagraph (b) (due to the earlier incorrect referencing).

## Merits Scrutiny

The following four points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

**32. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

Regulation 1 provides that various parts of regulation 25 are stated to come into force once section 120 of, and various paragraphs of Schedule 8 to, the Housing and Planning Act 2016 come into force. Neither the Explanatory Memorandum nor the Explanatory Notes give any indication as to when these provisions are expected to be brought into force. The Welsh Government is asked to provide further information in this regard.

**33. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

Although the Committee notes that they do not form part of these Regulations themselves, over 50 errors have been found in the footnotes to these Regulations which have been notified separately to Welsh Government officials. Footnotes are a useful tool for readers of legislation only insofar as they are accurate and the Committee therefore encourages the Welsh Government to ensure that this is the case.

**34. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

In reviewing these amendments, the Committee notes that in several instances the Welsh Government does not appear to have adhered to its own drafting guidelines, as set out in "Writing Laws for Wales". The Committee encourages the Welsh Government to adhere to its own standards when drafting legislation.

**35. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd.**

No consultation has been carried out in relation to these Regulations. The Explanatory Memorandum to the Regulations notes that:

> *"No formal consultation has taken place as these Regulations make only consequential technical amendments."*

## Welsh Government response

A Welsh Government response is required in relation to all reporting points save for point 35.

**Legal Advisers**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**7 July 2022**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rhoi Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar waith: gosod yr offerynnau cadarnhaol yn nhrydedd gyfres yr is-ddeddfwriaeth** |
| **DYDDIAD** | **21 Mehefin 2022** |
| **GAN** | **Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Mewn cyhoeddiad diweddar, nodais y câi darpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 eu dwyn i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

Heddiw, rwyf wedi gosod rhan o drydedd gyfres yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gefnogi'r broses o roi Deddf 2016 ar waith.

Mae'r drydedd gyfres hon yn cynnwys saith offeryn statudol o sylwedd. Mae'r pedwar offeryn a osodwyd heddiw i gyd yn cael eu gwneud drwy weithdrefn gadarnhaol y Senedd, a bwriedir cynnal dadl arnynt yn ystod cyfarfod llawn ar 12 Gorffennaf 2022. Mae'r offerynnau fel a ganlyn:

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022***

Mae'r OS hwn yn gwneud cyfres o ddiwygiadau i Atodlenni 2, 3, 8A, 9, 9B a 9C i Ddeddf 2016.
Mae'r diwygiadau hyn yn darparu nad yw tenantiaethau neu drwyddedau ar gyfer mathau penodol o lety sy'n ymwneud â mechnïaeth neu brawf, neu â mewnfudo neu loches, yn gontractau meddiannaeth. Mae'r diwygiadau hefyd yn adlewyrchu nifer o newidiadau diweddar i'r gyfraith sy'n ymwneud â darpariaeth y math hwn o lety.

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022***

Mae Atodlen 12 yn nodi trefniadau ar gyfer tenantiaethau a thrwyddedau sydd eisoes yn bodoli a fydd yn cael eu trosi'n gontractau meddiannaeth pan ddaw Deddf 2016 i rym. Diben yr Atodlen yw sicrhau bod y broses o drosi mor llyfn â phosibl a bod partïon y tenantiaethau a'r trwyddedau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu trin yn deg pan fo'u tenantiaeth neu drwydded yn cael ei throsi'n gontract meddiannaeth, gan sicrhau y cedwir cydbwysedd cywir mewn cysylltiad â hawliau a rhwymedigaethau'r ddau barti.

Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan yr OS hwn yn cynnwys:

- Diogelu hawliau presennol pobl 16 neu 17 oed sydd ar hyn o bryd yn ddeiliaid tenantiaeth sicr sy'n drwydded, neu'n feddiannaeth amaethyddol sicr sy'n drwydded;
- Darpariaeth ynghylch pa fathau o denantiaeth a thrwydded a all drosi'n gontractau safonol â chymorth: dim ond tenantiaethau a thrwyddedau byrddaliol sicr a thrwyddedau fydd yn trosi'n gontractau safonol â chymorth a, phan fo trosi'n digwydd, ni fydd pob un o'r darpariaethau sy'n ymwneud â chontractau safonol â chymorth yn Neddf 2016 yn berthnasol i'r contract hwnnw sydd wedi ei drosi;
- Ychwanegu tenantiaethau cychwynnol at y rhestr o denantiaethau cyfredol a fydd yn trosi'n denantiaethau safonol rhagarweiniol;
- Darparu nad yw'r gofynion o ran y cynlluniau blaendal ond yn berthnasol i denantiaethau byrddaliol sicr sydd wedi eu trosi, a gwneud ystod o ddarpariaethau ynghylch y trefniadau ar gyfer amrywio rhent ar gyfer mathau penodol o denantiaethau;
- Diogelu, cyn belled ag y bo'n bosibl, hawliau unrhyw un sy'n ddeiliad meddiannaeth amaethyddol sicr ar hyn o bryd; a
- Sicrhau, yn achos tenantiaethau cyfnod penodol pan fo'r cyfnod penodol yn dod i ben, a bod y contract yn dod yn gyfnodol cyn 1 Rhagfyr, y bydd cyfnod yr hysbysiad dim bai presennol o ddau fis yn parhau i fod yn gymwys ar ôl 1 Rhagfyr. Yn achos contractau cyfnod penodol sy'n trosi ar 1 Rhagfyr ac sydd wedyn yn dod yn gyfnodol (os nad yw'r landlord yn ceisio meddiannaeth ar ddiwedd y cyfnod penodol drwy gyflwyno hysbysiad dim bai o ddau fis), bydd yr hysbysiad chwe mis yn gymwys i'r contract cyfnodol newydd sy'n dilyn y cyfnod penodol.

- ***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022***

  Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf 2016.

  Yn gyffredinol, mae'r diwygiadau hyn naill ai:

  a. yn sicrhau bod darpariaeth bresennol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn parhau i gael effaith briodol drwy

     i. cyfeirio at gontractau meddiannaeth perthnasol ochr yn ochr â chyfeiriadau at fathau o denantiaeth sydd eisoes yn bodoli, neu

     ii. yn cynnwys y derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2016;

     neu,

b. pan fwriedir i ddarpariaethau Deddf 2016 ddisodli elfennau o’r gyfraith bresennol, neu pan nad yw’r gyfraith bresennol yn gydnaws â’r hyn a nodir yn Neddf 2016, drwy ddatgymhwyso’r gyfraith honno.

Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn rhoi Deddf 2016 ar waith, darparu cydlyniant ac eglurder a sicrhau cysondeb y gyfraith.

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithasau Tai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022***

Mae’r OS hwn yn darparu nad yw’r adrannau perthnasol o Ddeddf 2016 sy’n ymwneud ag amrywio rhent, sy’n gymwys i gontractau diogel neu gontractau safonol cyfnodol, yn ddarpariaethau sylfaenol o gontractau meddiannaeth sy’n denantiaethau cymdeithasau tai (o fewn yr ystyr a roddir i “housing association tenancy” yn Rhan 6 o Ddeddf Rhent 1977 (“Deddf 1977”)).

Mae’r OS hwn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2016 ac i adran 93 o Ddeddf 1977 hefyd. Effaith gyffredinol yr OS hwn yw bod y trefniadau a’r amddiffyniadau cyfredol sy’n gymwys i amrywio rhent mewn perthynas â’r tenantiaethau penodol hyn yn parhau i fod yn gymwys.

Gellir dod o hyd i bob un o’r offerynnau statudol hyn yma.

Byddaf hefyd yn gosod tri OS gweithredu arall  yn fuan. Mae’r rhain yn cael eu gwneud drwy weithdrefn negyddol y Senedd ac felly ni fyddant yn destun dadl yn y Senedd. Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig pellach i rybuddio Aelodau pan fydd yr OSau hynny wedi eu cyhoeddi.

Gellir dod o hyd i ganllawiau ac adnoddau eraill ar gyfer landlordiaid a thenantiaid drwy wefan Rhentu Cartrefi Cymru: https://llyw.cymru/mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi?

# SL(6)232 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022

## Cefndir a diben

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ("safonau"). Mae'r safonau hyn yn disodli'r cynlluniau iaith Gymraeg y darperir ar eu cyfer yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) ("y Rheoliadau") yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; a safonau cadw cofnodion. Mae'r Rheoliadau yn gwneud y safonau yn benodol gymwys i berson a restrir yn Atodlen 6 ("y cyrff"). Awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i'r cyrff hynny mewn perthynas â'r safonau a bennir, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol a nodir yn rheoliad 3(2). Y cyrff hynny yw:

- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Y Cyngor Fferylliaeth Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 ("Rheoliadau 2018"), a oedd yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru. Fel arfer mae rhif yn enw un o gyfres o Offerynnau Statudol yn cyfeirio at y nifer a wnaed yn y flwyddyn benodol. Yn yr achos hwn mae'r rhif yn cyfeirio at y gyfres gyfan o Reoliadau Safonau, sy'n parhau o Reoliadau 2018, yn yr un modd ag y mae gorchmynion cychwyn wedi'u rhifo.

Mae'r Rheoliadau hyn yn defnyddio'r wyddor Gymraeg yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg, oherwydd natur a phwnc y Rheoliadau. Mae'r arddull hon yn wahanol i'r arddull rifo arferol a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru.

Cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar Reoliadau drafft Safonau'r Gymraeg rhwng 16 Mawrth 2020 a 2 Hydref 2020. Yn sgil pandemig COVID-19, estynnwyd yr ymgynghoriad er mwyn i bawb sydd â diddordeb yn y Rheoliadau drafft gael cyfle i rannu eu

barn. Daw'r Rheoliadau'n i rym ar 31 Hydref 2022, os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Trafododd y Pwyllgor y Rheoliadau hyn yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2022. Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau, ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor hwn yn nodi bwriad y Gweinidog i dynnu'r Rheoliadau'n ôl ac ail-osod fersiwn wedi'i chywiro ohonynt. Cafodd y Rheoliadau hyn eu hail-osod ar 30 Mehefin 2022.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Gorffennaf 2022**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: SL(6)213

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

26 Mehefin 2022

Annwyl Huw,

Rwyf wedi nodi'r adroddiad ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022. Dyma hysbysu’r Pwyllgor fy mod yn bwriadu tynnu’r Rheoliadau yn ôl ac ail-osod fersiwn cywir o'r Rheoliadau.

Rwy'n gofyn yn garedig i’r Pwyllgor ail ystyried y Rheoliadau fel bod modd bwrw ymlaen i gynnal y ddadl ar 12 Gorffennaf ôl y bwriad.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(6)218 – Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau) yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 408(1) a 569(4) a (5), a pharagraff 3 o Atodlen 1(3), i Ddeddf Addysg 1996. Yn unol ag adran 408(5) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried ei bod yn ddymunol ymgynghori â hwy.

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer disgyblion a phlant yng Nghymru ("y Cwricwlwm newydd i Gymru").

Mae rheoliad 1 yn darparu ar gyfer cychwyn y Rheoliadau fesul grwpiau blwyddyn. Bydd hyn yn adlewyrchu'r bwriad i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a fydd hefyd yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o amser fesul grwpiau blwyddyn. Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru a'r Rheoliadau yn cael eu cyflwyno i blant a disgyblion fesult cam. Daw'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn fandadol ar gyfer y grwpiau blwyddyn mewn ysgolion a lleoliadau eraill fel a ganlyn—

(a) ar 1 Medi 2022 ar gyfer—

(i) plant mewn ysgol feithrin a gynhelir,

(ii) disgyblion mewn blwyddyn derbyn, ac

(iii) disgyblion ym mlynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6,

(b) ar 1 Medi 2022 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 7 yn yr ysgolion hynny a'r lleoliadau eraill hynny pan fo cwricwlwm wedi ei ddarparu yn unol â Deddf 2021,

(c) ar 1 Medi 2023 ar gyfer plant a disgyblion ym mlynyddoedd 7 ac 8,

(d) ar 1 Medi 2024 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 9,

(e) ar 1 Medi 2025 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 10, ac

(f) ar 1 Medi 2026 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 11.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â phlant a disgyblion y darperir addysg iddynt—

(a) mewn ysgolion a gynhelir,

(b) mewn ysgolion meithrin a gynhelir, ac

c) mewn unedau cyfeirio disgyblion ("UCDau").

Mae'r Rheoliadau yn gymwys i UCDau yn rhinwedd paragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996. Mae rheoliad 2(2) yn darparu, mewn perthynas ag UCD, fod cyfeiriad at bennaeth yn gyfeiriad at athro neu athrawes sydd â chyfrifoldeb am UCD a bod cyfeiriad at gorff llywodraethu yn gyfeiriad at bwyllgor rheoli (os oes un) ac at athro neu athrawes sydd â chyfrifoldeb am UCD os nad oes un.

Mae rheoliad 3 ac Atodlen 1 yn darparu ar gyfer datgymhwyso a dirymu Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") fesul cam. Mae datgymhwyso a dirymu Rheoliadau 2011 yn adlewyrchu'r dull arfaethedig o gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'r Rheoliadau.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth am gynnydd y disgybl o dymor i dymor i rieni disgyblion cofrestredig ac i ddisgyblion sy'n oedolion. Mae'r wybodaeth y mae rhaid ei darparu wedi ei nodi yn Rhan 1 o Atodlen 2.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir ddarparu gwybodaeth am gynnydd blynyddol disgyblion cofrestredig i rieni disgyblion cofrestredig ac i ddisgyblion sy'n oedolion ("gwybodaeth flynyddol"). Mae'r wybodaeth y mae rhaid ei darparu wedi ei nodi yn Rhannau 2 a 3 o Atodlen 2. Mae rheoliad 6 yn nodi'r cyfnod adrodd ar gyfer yr wybodaeth flynyddol.

Mae rheoliad 7 yn darparu y caiff disgybl sy'n oedolyn neu riant disgybl ofyn am unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol yn rhinwedd rheoliad 5 a Rhannau 2 a 3 o Atodlen 2 y maent yn ystyried ei bod ar goll o'r wybodaeth flynyddol a ddarperir.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth ddarparu i unrhyw ddisgybl sydd wedi peidio â bod o oedran ysgol gorfodol adroddiad i ddisgybl sy'n ymadael â'r ysgol ("adroddiad i ddisgybl sy'n ymadael â'r ysgol"). Mae'r wybodaeth y mae rhaid ei darparu yn yr adroddiad i ddisgybl sy'n ymadael â'r ysgol wedi ei nodi yn Rhan 4 o Atodlen 2.

Mae rheoliad 9 yn nodi'r cyfnod adrodd ar gyfer yr adroddiad i ddisgybl sy'n ymadael â'r ysgol.

Mae rheoliad 10 yn nodi cyfyngiadau penodol ar ddarparu gwybodaeth.

Mae rheoliad 11 yn darparu, pan fo angen, fod rhaid i unrhyw ddogfen neu unrhyw wybodaeth y mae'n ofynnol iddi fod ar gael o dan y Rheoliadau hyn gael ei chyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg neu i iaith arall neu gael ei chynhyrchu mewn Braille neu ar dâp sain.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn diffinio'r term "pennaeth" ond defnyddir y term hwn yn helaeth yn y Rheoliadau. Mae offerynnau eraill yn y gyfres, megis Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022 yn dweud bod i "bennaeth yr ystyr a roddir iddo yn adran 579(1) o Ddeddf 1996". Gallai'r anghysondeb hwn o ran dull achosi dryswch i'r darllenydd, yn enwedig o ystyried arwyddocâd y term 'pennaeth' i weithrediad y Rheoliadau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 4 Gorffennaf 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022**

***<u>Pwynt Craffu ar Rinweddau:</u>***

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi Adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno â'i gasgliad. Mae diffiniad rhannol o'r term "head teacher" yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 i'r perwyl bod "head teacher" yn cynnwys "acting head teacher". Nid yw'r term "acting head teacher" ei hun wedi ei ddiffinio yn Neddf 1996. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai cyfeirio'r darllenydd at y diffiniad rhannol yn adran 579(1) o Ddeddf 1996 wedi bod yn ddefnyddiol i'r darllenydd. Byddwn yn diwygio Rheoliadau 2022 i ymdrin â'r pwynt hwn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Diwygio a Dirymu) (Y Deyrnas Unedig a Gibraltar) (Ymadael â'r UE) 2022** |
| **DYDDIAD** | **05 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

**RhS 30C – Gosod OS yn Senedd y DU sy'n diwygio deddfwriaeth mewn maes datganoledig**

Yn unol â'm rhwymedigaethau o dan Reol Sefydlog 30C, hoffwn sicrhau bod yr Aelodau yn ymwybodol o'r cydsyniad yr wyf wedi'i roi i Lywodraeth y DU ddeddfu i ddirymu deddfwriaeth etholiadau Senedd Ewrop etifeddol ar ran Llywodraeth Cymru.

**Diben yr Offeryn Statudol**

Mae Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU wedi ein hysbysu yn ddiweddar am eu bwriad i ddirymu deddfwriaeth etholiadau Senedd Ewrop etifeddol a ddargedwir yng nghyfraith y DU nad oes ei hangen mwyach yn y DU ac i ddileu cyfeiriadau diangen at etholiadau Senedd Ewrop mewn rhai darnau o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag etholiadau domestig. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 8(1) (i fynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill (yn enwedig o dan adran 8(2)(a) ac (g) o Ddeddf 2018) yn sgil ymadawiad y DU â'r UE) a 24(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn gwneud hynny.

Bydd yr Offeryn Statudol yn:

a) hepgor cyfeiriadau diangen sy'n ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad Ewrop yn Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 1986 (O.S. 1986/1111) – mae'r rheoliadau hyn yn rhychwantu'r Alban yn unig;

b) hepgor cyfeiriadau diangen sy'n ymwneud ag etholiadau Senedd Ewrop yn Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Cynnal Pleidleisiau) (Cymru a Lloegr) 2004 (O.S. 2004/294) – mae hyn yn cynnwys rhai diwygiadau cyffredinol i ddileu cyfeiriadau diangen a hefyd i ddileu darpariaethau sy'n ymwneud â chyfuno cynnal pleidleisiau mewn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac etholiad Senedd Ewrop ac mewn etholiad maerol awdurdod cyfun ac etholiad Senedd Ewrop;
c) hepgor cyfeiriadau diangen at etholiadau Senedd Ewrop a diwygiad canlyniadol yn Atodlen 4 i Orchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2012 (O.S. 2012/1917) – mae etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn etholiadau a gedwir yn ôl;
d) gwneud diwygiad canlyniadol i Orchymyn Awdurdodau Cyfun (Etholiadau Maerol) 2017 (O.S. 2017/67) – math o sefydliad llywodraeth leol yw awdurdod cyfun a gyflwynwyd yn Lloegr gan Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009. Nid yw'r rhain yn gymwys i Gymru;
e) hepgor Tabl 2 o Ran 2 o Atodlen 1 i Reoliadau Etholiadau Senedd Ewrop Etc. (Darpariaethau Diddymu, Dirymu, Diwygio ac Arbed) (Y Deyrnas Unedig a Gibraltar) (Ymadael â'r UE) 2018 (O.S. 2018/1310).

Dyma'r darnau penodol o Ddeddfwriaeth a fydd yn cael eu dirymu o dan yr Offeryn Statudol:

*(a) Rheoliad (EU, Euratom) Rhif 1141/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar statud ac ariannu pleidiau gwleidyddol Ewropeaidd a sefydliadau gwleidyddol Ewropeaidd;*
*(b) Rheoliad (EU, Euratom) 2018/673 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diwygio Rheoliad (EU, Euratom) Rhif 1141/2014 ar statud ac ariannu pleidiau gwleidyddol Ewropeaidd a sefydliadau gwleidyddol Ewropeaidd;*
*(c) Penderfyniad y Cyngor (EU, Euratom) 2018/994 sy'n diwygio'r Ddeddf ynghylch ethol aelodau o Senedd Ewrop drwy bleidlais uniongyrchol i bawb, wedi'i atodi i Benderfyniad y Cyngor 76/787/ECSC;*
*(d) Gorchymyn Etholiadau Senedd Ewrop (Ffurflenni Cymraeg) 2014.*

**Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r Offeryn Statudol yn cynnwys darpariaethau sy'n dirymu darnau o ddeddfwriaeth (tri o offerynnau'r UE a Gorchymyn Etholiadau Senedd Ewrop (Ffurflenni Cymraeg) 2014), y mae eu pwnc o fewn cymhwysedd datganoledig, felly mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ymlaen llaw ar gyfer yr Offeryn Statudol.

Nid yw'r Offeryn Statudol yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid yw'r Offeryn Statudol yn cynnwys trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i Weinidogion Cymru nac oddi wrthynt ac nid yw ychwaith yn rhoi unrhyw swyddogaethau newydd i Weinidogion Cymru.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Mater technegol ac annadleuol yw hwn yn bennaf. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi a byddai gwneud trefniadau ar wahân yn arwain at ddyblygu, ac at gymhlethu'r llyfr statud yn ddiangen. Felly, rwyf yn fodlon mai rhoi caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y dirymiadau hyn ar ran Cymru yw'r cam mwyaf priodol yn yr achos penodol hwn am resymau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod.

**Vaughan Gething AS**
**Gweinidog yr Economi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddLJC@assembly.cymru

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomy@senedd.cymru

4 Gorffenaf 2022

Annwyl Paul a Huw,

Dyma eich hysbysu, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, fod cyfarfod y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach wedi'i drefnu ar gyfer 5 Gorffennaf 2022.

Bydd yr agenda yn cynnwys:

- adolygiad o gylch gorchwyl y grŵp (noder ar ôl cytuno ar y cylch gorchwyl bydd y grŵp yn trosglwyddo i'r Grŵp Rhyng-weinidogol (Masnach))
- yr wybodaeth ddiweddaraf am Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ag UDA
- yr wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau'r cytundeb masnach rydd rhwng y DU ac India

Anfonaf ragor o wybodaeth atoch ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022** |
| **DYDDIAD** | **04 Gorffennaf 2022** |
| **GAN** | **Julie James AS, Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Bydd Aelodau'r Senedd am wybod ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Mae Victoria Prentis AS, Gweinidog Gwladol y Deyrnas Unedig dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd wedi gofyn am gytundeb i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022 ("y Rheoliadau") a fydd yn gymwys i Brydain Fawr.

Caiff yr OS uchod ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 22(3) a 54(3) o Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor (“Rheoliadau’r Rheolaethau Swyddogol”).

Mae'r OS yn diwygio Deddfwriaeth yr UE ac yn darparu ar gyfer trefn ar gyfer Prydain Fawr sy’n seiliedig ar risg i bennu pa mor aml y cynhelir gwiriadau. Bydd yn caniatáu newid pa mor aml y cynhelir gwiriadau o iechyd planhigion ar lwybrau mewnforio penodol, gan ddibynnu ar lefel y risg i iechyd planhigion ym Mhrydain Fawr. Bydd yr offeryn yn gymwys yn yr un modd ag i fewnforion o wledydd y tu allan i’r UE ag i nwyddau blaenoriaeth uchel o aelod-wladwriaethau’r UE, y Swistir a Liechtenstein.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 30 Mehefin 2022 i ddod i rym ar 22 Gorffennaf 2022.

**Unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Gwnaeth diwygiadau blaenorol i'r Amodau Ffytoiechydol gywiriadau yr oedd eu hangen i'r drefn rheoleiddio iechyd planhigion. Eu heffaith oedd ehangu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru drwy roi swyddogaethau heb lyffethair iddynt (yn rhinwedd eu swydd fel 'Awdurdod Cymwys' i Gymru). Bydd y Gweinidog am nodi nad yw'r Rheoliadau yn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Pwrpas y diwygiadau**

Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer trefn ar gyfer Prydain Fawr sy'n seiliedig ar risg i bennu pa mor aml y cynhelir gwiriadau. Bydd yn caniatáu newid pa mor aml y cynhelir gwiriadau o iechyd planhigion ar lwybrau mewnforio penodol, gan ddibynnu ar lefel y risg i iechyd planhigion ym Mhrydain Fawr. Bydd yr offeryn yn gymwys yn yr un modd ag i fewnforion o wledydd y tu allan i'r UE ag i nwyddau blaenoriaeth uchel o aelod-wladwriaethau'r UE, y Swistir a Liechtenstein.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

The Official Controls (Plant Health) (Frequency of Checks) Regulations 2022 (legislation.gov.uk)

**Pam mae caniatâd wedi'i roi**

Mae caniatâd wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, er hwylustod, sicrhau effeithlonrwydd a diogelu bioddiogelwch drwy gyflwyno mesurau amddiffyn nwyddau planhigion sydd mewn perygl ledled y DU. Mae'r gwelliannau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes unrhyw gwahaniaeth o ran polisi.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

5 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

Gan gyfeirio at fy llythyr dyddiedig 28 Mehefin 2022, rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i’r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022 mewn perthynas a Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i’w weld yma:

https://senedd.cymru/media/wesdxwdl/ws-ld15212-w.pdf

Mae'r Rheoliadau'n gorgyffwrdd â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Gallai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau drwy arfer ein pwerau ein hunain. Mae’r Rheoliadau’n gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Bydd y Rheoliadau’n cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Erthyglau 22(3) a 54(3) o Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol').

Y weithdrefn negyddol fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Offeryn Statudol (OS) hwn, ac fe’i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 30 Mehefin 2022. Y dyddiad cychwyn ar ei gyfer fydd 22 Gorffennaf 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ystyrir ei bod yn briodol y tro hwn i sylwedd y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn gydlynol ac yn gyson a bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol ac na fyddai hynny'n ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Llŷr Gruffudd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

6 Gorffennaf 2022

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Guernsey**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am dri deg seithfed uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gynhelir yn Guernsey yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Bydd yr Uwchgynhadledd yn cael ei chynnal ar ffurf hybrid, gyda mynychwyr rhithwir ac wyneb yn wyneb. Bydd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd a minnau'n cynrychioli Llywodraeth Cymru. Byddaf i yn Guernsey a bydd y Gweinidog yn bresennol yn rhithwir.

Yn ogystal â'r cyfle arferol i gael diweddariad cyffredinol ar faterion, bydd yr Uwchgynhadledd yn canolbwyntio ar Gynllunio Gofodol Cydweithredol.

Cyn yr Uwchgynhadledd, bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn mynychu cyfarfod Gweinidogol ar Gynllunio Gofodol Cydweithredol.

Bydd y Cyngor yn cytuno ar hysbysiad yn yr Uwchgynhadledd yn manylu ar y trafodaethau a gynhaliwyd yn y drafodaeth Gweinidogol ar Gynllunio Gofodol Cydweithredol. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto yn dilyn yr Uwchgynhadledd i rannu'r rhain gyda chi. Byddaf hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd gyda datganiad ar yr Uwchgynhadledd yr wythnos nesaf.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

5 Gorffennaf 2022

Anwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mehefin at y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, ynghylch Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig (Confensiwn Istanbul). Rwy'n ymateb gan fod y cyfrifoldeb am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn dod o fewn fy mhortffolio.

Roeddech yn gofyn am fanylion ynghylch cyfraniad Llywodraeth Cymru at y penderfyniad i gadarnhau'r Confensiwn. Cysylltodd Rachel Maclean AS, Gweinidog Diogelu Llywodraeth y DU â mi ar 3 Mai, a dywedodd wrthyf y byddai Llywodraeth y DU yn cychwyn y trafodion cadarnhau ar gyfer Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Merched a Thrais Domestig. Gofynnodd i'm swyddogion adolygu'r Memorandwm Esboniadol ac ymateb erbyn 6 Mai.

Er fy mod yn croesawu cychwyn y broses hon, ac wedi ysgrifennu at Weinidogion y DU i'w hannog i gadarnhau'r confensiwn droeon, rwyf wedi codi nifer o bryderon yn ysgrifenedig i'r Gweinidog Diogelu, ynghyd â'm siom ynghylch yr amserlenni byr a gynigir i ystyried hyn mewn manylder. Mae'r pryderon hyn hefyd wedi'u trafod rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mynegais fy mhryder ynghylch y cynlluniau a amlinellir ym mharagraff 9.10 o'r Memorandwm yn cynnig y dylai Erthygl 59, sy'n ymwneud â chymorth i fudwyr sy'n dioddef VAWDASV, gael ei gadw yn ôl. Tynnais sylw at fy siom ynghylch y ffaith na chydnabuwyd trafferthion menywod mudol ar wyneb Deddf Cam-drin Domestig 2021 a'm bod unwaith eto'n siomedig o weld na fydd y dioddefwyr a'r goroeswyr hyn yn derbyn cefnogaeth na darpariaeth ddigonol o fewn y broses o gadarnhau Confensiwn Istanbul.

Y rheswm a nodwyd ar gyfer cadw'r mater yn ôl oedd y gwerthusiad sy'n mynd rhagddo o gynllun peilot Cymorth i Ddioddefwyr Mudol y Swyddfa Gartref. Er bod Llywodraeth Cymru

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn croesawu'r cynllun hwn, a’m bod yn falch o weld bod y cynllun wedi'i ymestyn, rwyf o'r farn bod y cynllun peilot yn edrych ar sut mae dioddefwyr a goroeswyr mudol yn cael eu cefnogi, yn hytrach nag os ydynt yn cael eu cefnogi. Nid wyf yn gweld bod y cynllun peilot yn rheswm derbyniol dros gadw Erthygl 59 yn ôl.

Mae hyn yn mynd yn groes i ddull gweithredu 'Cenedl Noddfa' Llywodraeth Cymru. Mae ein dull gweithredu ni yn cydnabod yr heriau a'r caledi penodol a wynebir gan fenywod sy'n ffoaduriaid, yn fudwyr ac yn geiswyr lloches sy'n ffoi rhag VAWDASV, a'i nod yw darparu cymorth a chefnogaeth i'w galluogi i ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru. Yng ngoleuni hyn, galwais ar Lywodraeth y DU i wyrdroi'r penderfyniad hwn i sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr mudol yn cael eu cydnabod a'u cefnogi fel y bwriadwyd gan y Confensiwn.

Mae Llywodraeth yr Alban yn cefnogi ein safbwynt ni, ac ysgrifennodd y Gweinidog Cydraddoldeb a Phobl Hŷn, Christina McKelvie MSP hefyd at y Gweinidog Diogelu i fynegi pryderon tebyg.

Roeddech yn gofyn hefyd a yw cyfraniad Llywodraeth Cymru yn cael ei ddisgrifio'n gywir yn y Memorandwm Esboniadol. Fel rhan o'm hymateb i'r Gweinidog Diogelu, nodais fy mhryderon ynghylch paragraff 10.2 yn y Memorandwm sy'n cwmpasu Erthyglau o fewn y Confensiwn yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl a materion datganoledig. Mae Adran 10 o'r Memorandwm yn ymwneud ag Ymgynghori, ac nid cymhwysedd deddfwriaethol. Gofynnais i'r paragraff hwn gael ei ddileu, neu, fel dewis arall, y dylid rhoi digon o amser i'm swyddogion gynnal dadansoddiad manwl o'r Confensiwn drwy'r lens cymhwysedd. Ni wnaeth Llywodraeth y DU gytuno i hyn ac felly cadwodd Llywodraeth Cymru ei safbwynt ar gymhwysedd deddfwriaethol yn ôl.

Yn ogystal, yn eich llythyr, roeddech yn gofyn sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau o dan y Confensiwn, ar gyfer pob un o'r erthyglau sy'n ymwneud â meysydd datganoledig a nodir yn y Memorandwm Esboniadol. Bob blwyddyn mae'r DU yn cyhoeddi adroddiad cynnydd sy'n crynhoi ein cydymffurfiaeth â'r Confensiwn. Mae’n amlinellu cynnydd Llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig.

Ar ben hynny, mae ein Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026 yn nodi sut rydym yn mynd i’r afael â VAWDASV yng Nghymru. Er bod y Confensiwn yn gosod safonau gofynnol i atal trais yn erbyn menywod, diogelu dioddefwyr ac erlyn y rhai sy’n gyfrifol, drwy gyflawni ein strategaeth rydym yn bwriadu mynd y tu hwnt i’r safonau gofynnol hyn a gwneud ein cyfraniad i drechu’r epidemig byd-eang o VAWDASV.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU i gadarnhau'r Confensiwn, ond mae'n rhaid i'r broses hon hefyd ddod o hyd i atebion a all fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a wynebir gan fudwyr sy’n ddioddefwyr a goroeswyr VAWDASV.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

22 Mehefin 2022

Annwyl Mark

Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig

Byddwch yn ymwybodol mai fy Mhwyllgor i sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 6 Mehefin 2022, gwnaethom drafod Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a threchu trais yn erbyn menywod a thrais domestig.

Diben y Confensiwn yw amddiffyn menywod rhag pob math o drais, ac atal, erlyn a diddymu trais yn erbyn menywod a merched drwy greu fframwaith cyfreithiol eang. Mae'r Confensiwn yn diffinio 'trais yn erbyn menywod' a 'thrais domestig' ac yn gosod rhwymedigaethau ar bartïon i fabwysiadu dull cydgysylltiedig a chydlynol o fynd i'r afael â'r troseddau hyn.

Amgaeaf yr adroddiad ar ein trafodaeth ynghylch y cytundeb. Fe welwch ein bod wedi cytuno i ofyn am y wybodaeth a ganlyn gan Lywodraeth Cymru:

- y rhan a chwaraeodd yn y penderfyniad i gadarnhau'r Confensiwn ac a yw hyn yn cael ei disgrifio'n gywir yn y Memorandwm Esboniadol;
- sut y mae'n cyflawni ei dyletswyddau o dan y Confensiwn, ar gyfer pob un o'i erthyglau sy'n ymwneud â meysydd datganoledig, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol;
- a oes angen cymryd camau pellach i sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn â'r Confensiwn.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 7 Medi 2022.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
**Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

6 Gorffennaf 2022

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

*Ymgysylltiad y Gyllideb*

Ar 11 Ebrill, ysgrifennais i roi gwybod ichi am raglen ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid ar gyfer ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 sydd ar ddod. Mae'r Pwyllgor bellach wedi cwblhau ei dri maes ymgysylltu:

- digwyddiad i randdeiliaid yn Sefydliad y Glowyr Llanhiledd;
- gweithdy gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru; a
- grwpiau ffocws gyda'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae adroddiad ymgysylltu wedi'i gyhoeddi sy'n crynhoi'r ymatebion a gawsom yn ystod ein gwaith ymgysylltu.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

*Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru*

Ar 13 Gorffennaf, bydd y Pwyllgor yn cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru a bydd yr adroddiad ymgysylltu y cyfeirir ato uchod yn cael ei gynnwys fel dogfen ategol ar gyfer y ddadl.

Credwn fod y ddadl hon yn rhoi'r cyfle gorau i'r Aelodau ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn llunio'r gyllideb ddrafft yn yr hydref a byddwn yn annog y Pwyllgorau i gyfrannu at y ddadl bwysig hon a phwyso am weithredu yn eu meysydd diddordeb.

*Yr amserlen a'r dull o graffu ar y gyllideb*

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU y llynedd am setliad aml-flwyddyn, roedd y Pwyllgor wedi gobeithio y byddem yn dychwelyd i broses 'cyllideb arferol' eleni, ar ôl sawl blwyddyn o graffu cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu i egluro na fydd y diffyg sicrwydd ynghylch y pwysau sylweddol sy'n wynebu cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn cael ei ddatrys hyd nes bod Llywodraeth Cymru yn gwybod a fydd ei setliad yn newid mewn unrhyw ddigwyddiad Cyllidol yr Hydref yn y DU.

Gofynnodd y Gweinidog am farn y Pwyllgor ar yr amserlen a ffefrir ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, gyda'r opsiwn a ffefrir gennym sef ei fod yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref i alluogi wyth wythnos ar gyfer gwaith craffu, gyda'r gyllideb derfynol yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr.

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd bellach wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i'w hysbysu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r cyllidebau drafft amlinellol a manwl gyda'i gilydd erbyn 13 Rhagfyr fan bellaf neu o fewn pedair wythnos i gyllideb yr hydref Llywodraeth y DU. Cadarnhaodd y Trefnydd hefyd y bydd yn diweddaru amserlen y gyllideb yn nhymor yr hydref, cyn gynted ag y bydd manylion digwyddiad cyllidol y DU yn hysbys.

O ystyried y bydd cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yn cael ei ohirio eto eleni, bydd galwad y Pwyllgor am dystiolaeth yn digwydd ym mis Medi. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto gyda rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad, ac unrhyw ddiwygiadau i amserlen y gyllideb, maes o law.

*Protocol Proses y Gyllideb*

Mae Protocol Proses y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru wedi bod ar waith ers 2017. Mae'r protocol yn nodi'r ddealltwriaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru ar y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb.

Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol lle nad yw proses dau gam y gyllideb wedi'i defnyddio ac mae gwaith craffu wedi'i gwtogi oherwydd amgylchiadau eithriadol. Er ein bod yn cydnabod bod oedi wedi digwydd oherwydd ansicrwydd cyllid gan Lywodraeth y DU, mae prosesau cyllidebol byrrach yn dod yn gyffredin ac, fel Cadeirydd, nid wyf yn dymuno cael trafodaethau tebyg ynghylch materion amserlennu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Am y rheswm hwn, rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog ymrwymo i adolygiad o brotocol proses y gyllideb cyn rownd y gyllideb ar gyfer 2024-25 i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Os oes gennych unrhyw sylwadau am brofiad eich Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, byddwn yn ddiolchgar o glywed gennych.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso ichi gysylltu â mi neu Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388 neu yn seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol – 5 Gorffennaf 2022**

Diolch, Llywydd. Today, I am pleased to make a statement on our legislative programme. This is an essential part of our ambitious and radical programme for government that will help to shape Wales for the future. We're now in the third Senedd term since the people of Wales voted to give the then National Assembly the power to make Assembly Acts. Since 2011, we have been building up to the volume of primary legislation that this Government will bring forward over the course of this Senedd term. This is a programme that demonstrates our extensive use of those powers, and at an extensive rate.

Dyw'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen ddeddfwriaeth sylfaenol ddim yn digwydd mewn gwagle. Mae pwysau eraill yn bodoli sy'n effeithio ar y Llywodraeth a'r Senedd. Mae gennym raglen sylweddol o is-ddeddfwriaeth sy'n cyd-fynd â'n rhaglen ddeddfwriaeth. Yn aml, mae diffyg dealltwriaeth ynglŷn â pha mor eang a phwysig yw is-ddeddfwriaeth. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cynnydd amlwg wedi bod o ran maint y deddfwriaeth a phwysigrwydd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud fel hyn. Mae hynny wedi ychwanegu'n sylweddol at lwyth waith y Weithrediaeth a'r ddeddfwrfa, yn y Cyfarfod Llawn ac yn y pwyllgorau.

Bringing forward the primary legislative programme does not take place in a vacuum. Other pressures exist that have an impact on the Government and the Senedd. A significant programme of subordinate legislation sits alongside and underpins our legislative programme. Very often, there is a lack of understanding about how broad and important subordinate legislation is. In recent years, there has been an increase in the volume of such legislation and the importance of the decisions determined in this way. This has significantly increased the workload of the Executive and the legislature in recent years, both in Plenary and committees.

Since early February 2020, Llywydd, more than 300 items of subordinate legislation have been made in relation to coronavirus alone, often with fundamental impact on the daily lives of our fellow citizens. The current surge in COVID numbers, as we've discussed this afternoon, reminds us that this journey is still not over. And, Llywydd, while the volume of EU exit-related secondary legislation has diminished in the last 12 months, we will still be bringing Brexit-derived statutory instruments to the Senedd until the end of this calendar year.

Beyond COVID and Brexit, in the last 12 months, we have made over 50 SIs to implement major Acts passed in the last Senedd, including legislation to support schools and teachers to deliver our radical changes to the curriculum for Wales, and the provisions of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021. Members will

consider regulations to make 20 mph the default speed limit in residential areas next week here in the Senedd, a key component of our programme for government. Further secondary legislation will follow during the year, including regulations to implement the Tertiary Education and Research (Wales) Bill, and aspects of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020, such as the duty of candour.

Llywydd, allwn ni chwaith ddim anwybyddu bwriadau deddfwriaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn yr hinsawdd bresennol, mae'r rhain yn creu risg sylweddol i Gymru ac i ddatganoli. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi dweud bod 27 o'r Biliau a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines ym mis Mai yn debygol o ymestyn i Gymru a bod yn gymwys iddi. Mae eisoes yn amlwg y bydd llawer o'r rhain yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â meysydd datganoledig, a fydd yn effeithio ar y setliad datganoli. Mae hynny'n golygu bod angen i'r Llywodraeth hon a'r Senedd fod yn wyliadwrus, ystyried cynigion yn fanwl, ac ymateb yn unol â hynny.

Llywydd, we also cannot ignore the legislative intentions of the UK Government, which, in the current climate, represent a significant risk to Wales and to devolution. The Secretary of State for Wales has said that 27 UK Bills announced in the Queen's Speech in May are likely to extend and apply to Wales. It is already clear that many of these will contain provisions relating to devolved areas, and this will result in incursions into the devolution settlement. This requires this Government and the Senedd to remain vigilant, consider proposals in detail, and respond accordingly.

Llywydd, despite these many other legislative pressures and the challenging context during the first year of this Senedd term, we have already introduced four primary Bills to the floor of the Senedd. The Tertiary Education and Research (Wales) Bill was passed by Members last week and will put a new system in place for post-16 education and training in Wales. Members will consider Stage 3 amendments to our Welsh Tax Acts etc. (Power to Modify) Bill this afternoon. That Bill will provide Welsh Ministers with carefully delineated and time-limited powers to respond quickly to protect Welsh citizens against sudden and unexpected decisions of the UK Government that could have a significant impact on the liabilities of individuals and on revenue for Welsh public services. We've already introduced the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Bill. This unique legislation, delivered in conjunction with our social partners, will ensure the fair rights of workers and lead to more socially responsible public procurement. And, yesterday, we introduced the first consolidation Bill before the Senedd, the Historic Environment (Wales) Bill, which will make the law in Wales relating to listed buildings and the historic environment more accessible in future.

Llywydd, rwy'n troi nawr at Filiau sydd i'w cyflwyno yn y flwyddyn i ddod. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i greu Cymru decach, wyrddach a chryfach. Cafodd y portffolio newid hinsawdd ei greu i'w gwneud yn haws i brif feysydd y Llywodraeth ddatganoledig gael yr effaith fwyaf yn y maes hwn. Mae dyletswydd foesol i ni wneud cynnydd ar yr agenda hwn, a byddwn yn cyflwyno nifer o Filiau i wneud cyfres o newidiadau pwysig dros y 12 mis nesaf.

Llywydd, I now turn to those Bills to be brought forward in the coming year. This Government is committed to creating a fairer, greener and stronger Wales. The establishment of a climate change portfolio was designed to make it easier to mobilise the main areas of devolved Government with the greatest impact in this area. There is a moral imperative that we make progress on this agenda, and we will bring forward a number of Bills to make a series of important changes over the next 12 months.

As an early priority, Llywydd, we will bring forward a Bill to ban or restrict the sale of some of the most commonly littered single-use plastics in Wales. This will meet our key programme for government commitment in this area. But, in addition, the Bill will also support our ongoing legal challenge to the United Kingdom Internal Market Act 2020. In the current litigation, brought by the Counsel General, the court has indicated it would find it helpful to consider a practical example, in the form of a piece of Senedd legislation, against which it can test the issues under consideration. This Bill will provide that practical example, and in that context we will be seeking the agreement of Business Committee to expedite the scrutiny of the Senedd on this Bill.

Llywydd, a clean air Bill is a significant priority for this Government. We want to build on action already under way to reduce emissions and deliver vital improvements in air quality, supporting healthier communities and better environments. Our White Paper set out how we intend to enable ambitious air quality targets and put in place a more robust regulatory framework to support them. This will be accompanied by measures to make sure all parts of society play their part in reducing air pollution, and I look forward to working with Members across the Chamber to develop that Bill once it is introduced.

Llywydd, we have set out our ambition to reform the way agriculture is supported in the future, with an emphasis both on high-quality and sustainable food production and rewarding farmers for the delivery of environmental and associated social outcomes. We will publish an outline sustainable farming scheme ahead of the Royal Welsh Show and the series of summer agriculture events that follow. Llywydd, the timing here is deliberate. It will allow for meaningful engagement on the detail of the proposed scheme ahead of the introduction of the agriculture Bill itself, which will be brought before the Senedd in the autumn.

Members will also be aware that we have made significant progress since establishing our coal tip safety taskforce two years ago. The Law Commission's landmark report, 'Regulating Coal Tip Safety in Wales', was published earlier this year. It clearly concluded that the law as it stands is not fit for today's purposes. The report informed our White Paper consultation and we will introduce a Bill on coal tip safety to establish a consistent approach to the management, monitoring and oversight of disused coal tips throughout Wales. This will protect those communities that bear the legacy of our industrial past, as well as support critical infrastructure and the environment by reducing the likelihood of landslides.

Llywydd, we're also committed to simplifying the consenting process for specified types of major on and offshore infrastructure, and we will, therefore, introduce an infrastructure consenting Bill to provide more certainty for communities and developers alike. The Bill will replace existing statutory regimes for the consenting of Welsh infrastructure projects, and it will rationalise the number of authorisations required to construct and operate a project into a single consent.

Llywydd, mae datganiad blynyddol y rhaglen ddeddfwriaethol yn cael ei ddefnyddio fel arfer i gyhoeddi Biliau y bydd y Llywodraeth yn eu cyflwyno yn ystod y 12 mis nesaf. Fodd bynnag, mae'r Senedd yn craffu ar ddeddfwriaeth mewn continwwm, ac nid yw Biliau'n cwympo ar ddiwedd sesiwn. Felly, fe hoffwn i edrych ychydig ymhellach ymlaen at ddechrau trydedd flwyddyn y rhaglen a sôn am nifer o Filiau pwysig eraill.

Llywydd, the annual legislative programme statement has been typically used to announce the Bills that the Government will introduce in the coming 12 months. However, the Senedd scrutinises legislation in a continuum, and Bills do not fall at the end of a session. Therefore, I want to look a little further ahead to the start of the third year of the programme and to mention a number of other important Bills.

Llywydd, as I mentioned earlier, the challenges for both the Executive and the legislature in managing the legislative pressures associated with primary and secondary legislation initiated here, as well as legislation initiated in Westminster, are considerable. To ensure that this Senedd is able to execute its responsibilities and ensure that we have greater capacity to scrutinise legislation, we will bring forward a Bill to reform the Senedd. We're on track to deliver on our commitment set out in the co-operation agreement with Plaid Cymru to deliver that Bill within 12 to 18 months of the special purpose committee's report. This crucial, once-in-a-generation legislation will create a modern Senedd, reflecting the Wales we live in today and with the means to represent and deliver for the people of Wales.

We heard of the importance of transport earlier this afternoon, Llywydd, and transport accounts for nearly a fifth of our carbon emissions, yet we cannot currently plan bus networks to help break our reliance on private cars by making sure people can access services reliably and sustainably. Our consultation on fundamental change to the way bus services are planned in Wales closed last week. In the autumn of next year, we will bring forward a bus Bill, allowing all levels of government in Wales to work together to design the bus networks our communities need.

And early in that third year we will also introduce a local government finance Bill. It will be before the Senedd before the end of 2023, and that Bill will deliver our programme for government commitment to reform the council tax in Wales. Through partnership working and extensive engagement with ratepayers, we continue to explore options for non-domestic rate reform, and that will require a combination of both primary and subordinate legislative action.

Llywydd, mae agenda llawn o ddeddfwriaeth o'n blaen, ond mae'r rhain yn gerrig sylfaen pwysig tuag at y Gymru rydym am ei gweld. Er mwyn cyflawni'r agenda, byddwn yn parhau i weithio ar draws y Siambr hon i sicrhau ein bod yn gwneud y ddeddfwriaeth orau bosibl sy'n gwella bywydau holl bobl Cymru. Mae'r datganiad hwn yn dangos ein hymrwymiad i ddyfodol tecach, gwyrddach a chryfach, ac rwy'n cymeradwyo'r rhaglen ddeddfwriaethol hon i'r Senedd.

Llywydd, there's packed legislative agenda ahead of us, but these are the significant building blocks towards the Wales we want to see. To deliver it, we will continue to work across the Chamber to ensure our legislation is the best it can be and improves the lives of all the people of Wales. This statement demonstrates our commitment to a fairer, greener and stronger future, and I commend this legislative programme to the Senedd.